

Polisi Cynllunio Cymru
Nodyn Cyngor Technegol
19: TELATHREBU



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Awst 2002

Mae'r ddogfen hon yn un mewn cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) (TANs) sy'n cydategu "Polisi Cynllunio Cymru".

Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth yr Adran Gynllunio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, am Planning.Division@Wales.gsi.gov.uk, neu drwy ffonio (029) 20 823585.

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

Y Ganolfan Gyhoeddiadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Lanfa
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: **029 2089 8688**
E-bost: **Assembly-publications@wales.gsi.gov.uk**

Gwnaed y llun ar y clawr o ddata Landsat
(is-goch lliw gwel adwy/bron yn weladwy)
ac fe'i cafwyd gan Infoterraglobal.com.

CYNNWYS	Rhif y Paragraff
CYFLWYNIAD	1
SYSTEMAU TELATHREBU	4
Telathrebu cyhoeddus	5
Darlledu teledu lloeren	27
Darlledu daearol	30
Derbyn signalau	31
CYNLLUNIAU DATBLYGU	32
RHEOLI DATBLYGU	
Mân ddatblygiadau telathrebu	35
Hawliau datblygu a ganiateir	37
Datblygiad lle mae cais am rag-gymeradwyaeth yn ofynnol	41
Datblygiad lle mae cais am ganiatâd cynllunio'n ofynnol	44
Cyfyngiadau technegol	46
Trefn glirio ar gyfer safleoedd radio	47
Gwerthoedd eiddo	48
TREFNIADAU YMGYNGHORI	
Trafodaethau cyn datblygu	49
Trafodaethau cyn gwneud cais	51
Cyhoeddusrwydd	53
Ysgolion / colegau	54
YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL	56
Rhannu mastiau a safleoedd	57
Cofrestrau mastiau	63
Lleoli a dylunio	65
Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig	72
YSTYRIAETHAU IECHYD	
Beth yw meysydd electromagnetig (MEM)?	73
Effeithiau ar iechyd oherwydd cyffyrddiad ag MEM	76
Grŵp Arbenigol Annibynnol ar Ffonau Symudol	79
Ystyried effeithiau ar iechyd a chanfyddiad y cyhoedd o berygl	83
Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch	85
YMYRIANT RADIO O DDATBLYGIAD ARFAETHEDIG	89
MATERION TELATHREBU MEWN DATBLYGIADAU ERAILL	92
DILEADAU	95

ATODIAD 1 – CANLLAWIAU AR WEITHDREFNAU RHAG-GYMERADWYO AR GYFER
DATBLYGIADAU TELATHREBU A GANIATEIR

NODYN A – DYFYNIAD O ATODLEN 2 DEDDF TELATHREBU
1984

ATODIAD 2 – RHEOLI YMYRIANT RADIO

CYFLWYNIAD

1. Dylid darllen y Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) (TAN) hwn ochr yn ochr ag Adrannau 12.11 –13 Polisi Cynllunio Cymru¹. Dylai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru gymryd y Nodiadau Cynllunio Technegol a'r cylchlythyrau i ystyriaeth wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallant fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol a chânt eu cymryd i ystyriaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) a'i Arolygwyr wrth benderfynu ceisiadau Cynllunio a elwir i mewn ac apeliadau.
2. Mae'r dogfennau a restrir yn y troednodiadau yn rhoi gwybodaeth y dylid ei darllen ochr yn ochr â'r TAN.
3. Mae'r cyngor a roddir yma yn cymryd i ystyriaeth y twf yn y diwydiant a'r dechnoleg delathrebu, y galw cymdeithasol ac economaidd newydd am gyfathrebu, a pholisïau amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad). Ac eithrio lle nodir fel arall, dylid darllen pob cyfeiriad at delathrebu yn y cyngor hwn fel pe'n cynnwys pob math o gyfathrebu trwy wifren a cheblau trydanol neu optegol a signalau radio (daearol neu o loeren) cyhoeddus neu breifat.

SYSTEMAU TELATHREBU

4. Mae'r paragraffau a ganlyn yn disgrifio'r prif systemau telathrebu a'r datblygiadau ffisegol sy'n gysylltiedig â hwy.

Telathrebu cyhoeddus

5. Gelwir y gweithredwyr trwyddedig hynny sy'n meddu ar yr hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y "Cod Telathrebu"² yn weithredwyr systemau cod ac maent yn defnyddio gwahanol systemau i ddarparu signalau i'r cwsmer.
6. Mae gan bob system, pa un a'i gweithredir o dan y Cod Telathrebu ai peidio, wahanol fathau o antena, anghenion lleoli a nodweddion eraill, y mae angen i'r awdurdodau cynllunio eu cymryd i ystyriaeth wrth gyflawni eu cyfrifoldebau o ran cynllunio a rheoli datblygu. Y prif systemau yw:

i. Cyswllt Sefydlog

7. Mae systemau Cyswllt Sefydlog yn gweithredu drwy gysylltiadau cebl (weiren gopr neu ffibr optegol), a signalau radio a drosglwyddir drwy gyfrwng antenâu cylch gweld neu loerennau.
8. Gall y prif rwydweithiau ddefnyddio cysylltiadau radio sefydlog yn ogystal â cheblau ffibr optegol. Ar gyfer y cysylltiadau radio hyn, mae angen darparu gorsafoddd trosglwyddo radio. Fel arfer mae gorsaf yn cynnwys adeilad bach i ddal yr offer radio a thwr sydd hyd at 60 metr o uchder fel rheol i gynnal nifer o antenâu. Gellir lleoli antenâu hefyd ar adeiladau neu adeileddau eraill. "Dysglau" crwn yw antenâu radio cyswllt sefydlog, gyda diamedrau nodweddiadol o 0.3, 0.6 ac 1.2 metr, er y gellir cael adlewyrchydion o wahanol siapiau a meintiau.

¹ "Polisi Cynllunio Cymru", Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2002.

² Deddf Telathrebu 1984, Atodlen 2.

9. Mae cysylltiadau radio'n gweithredu ar amleddau sy'n golygu bod angen cylch gweld uniongyrchol, ac y mae cyrhaeddiad y signal yn lleihau wrth i'r amledd gynyddu. Rhaid i'r cysylltiadau radio fod yn rhydd o rwystrau, megis brynau, adeiladau, coed neu wrthrychau mawr symudol. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â chrymedd y ddaear a gwahanol amodau atmosfferig, yn effeithio ar y modd y lleolir antenâu ac ar yr uchder sy'n ofynnol. Er mwyn cyrraedd yn ddigon pell, neu oresgyn rhwystrau, mae gorsafodded yn y canol i atgynhyrchu'r signal yn aml yn ofynnol. Ar gyfer y rhain mae angen o leiaf ddwy antena, y naill i dderbyn y signal a'r llall i'w drosglwyddo ymlaen; hwyrach y bydd angen antenâu eraill hefyd, i ddarparu galluedd ychwanegol neu fel cyfleuster wrth gefn.

10. Mae cysylltiadau radio trwy gyfrwng lloeren hefyd yn fath o gyfathrebu cyswllt sefydlog. Yma mae un antena'n pwyntio at loeren sy'n cylchdroi o gwmpas y ddaear neu, yn achos "gorsaf loerennau ddaearol", nifer o antenâu yn pwyntio at nifer o loerennau.

11. Ni ddylid cymysgu rhwng yr antenâu a ddefnyddir i drosglwyddo a derbyn signalau radio drwy gyfrwng lloeren ac antenâu teledu lloeren domestig. Er eu bod yn defnyddio'r un egwyddorion ar gyfer derbyn signalau radio o loerennau, ac yn debyg o ran eu golwg, maent yn cyflawni swyddogaethau gwahanol.

12. Mae darlledwyr teledu'n defnyddio cysylltiadau sefydlog i ddosbarthu eu rhaglenni ac i gysylltu â stiwdios, ac mae rhai busnesau hefyd yn eu defnyddio ar gyfer rhwydweithiau masnachol preifat. Enghraifft arall o system gyswllt sefydlog yw'r rhwydwaith cebl lleol a all ddarparu gwasanaeth aml-sianel o ddeunydd teledu cenedlaethol a lleol, ffilmiau, gwybodaeth, data rhyngweithiol a theleffoni llais i danysgrifwyr. Gosodir y cebl o dan y ddaear ac fel arfer mae angen codi blychau cyswllt bach bob hyn a hyn; a chael dysgl loeren fawr i dderbyn y signal teledu ym mhen eithaf pob cebl.

ii. Mynediad Diwifr Sefydlog

13. Mae Mynediad Diwifr Sefydlog (FWA – a elwir hefyd yn Fynediad Sefydlog trwy Radio (RFA)) yn darparu math gwahanol o ddosbarthu diwifr, sef dosbarthu gwybodaeth o un pwynt i lawer. Yn hytrach na chysylltu eiddo preswyl a masnachol â'r rhwydwaith switsiedig cyhoeddus trwy wifrau, megis cebl copr, mae'n bosibl defnyddio radio. Mae rhwydweithiau newydd ar gyfer gwasanaethau "Mynediad Diwifr Sefydlog Band Llydan" (BFWA) yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd, gyda'r nod o drosglwyddo llawer iawn o wybodaeth (e.e. gwasanaethau gyda chyfraddau data uchel) dros bellteroedd byr. Mae trwyddedau ar gyfer y sbectwm 28GHz ar gael ers 15 Hydref 2001, a bydd trwyddedau eraill ar gyfer 3.4GHz a 10GHz ar gael yn eu tro. Defnyddir gwasanaethau FWA band cul ar gyfer teleffoni lleol a gwasanaethau eraill. Mae'r gweithredwyr FWA yn darparu cystadleuaeth newydd a phwysig o fewn y ddolen leol. Fel arfer, mae arnynt angen bod o fewn cylch gweld uniongyrchol i'r adeiladau a wasanaethir. Y patrwm nodweddiadol yw antena aml-bwynt mewn man uchel canolog gyda chylch o antenâu pwynt i bwynt yn wynebu'r pwynt canolog. Nid oes angen antenâu mawr ar drosglwyddyddion/derbynyddion o'r fath ac y mae'r mwyafrif yn debygol o fod yn rhai disylw iawn.

iii. Cyfathrebu Symudol Cenhedlaeth Gyntaf (analog)

14. Mae'r rhwydweithiau cellog gwreiddiol, a gyflwynwyd yn y DU yng nghanol yr 1980au, wedi eu cau erbyn hyn, ac y mae GSM (gweler isod) wedi cymryd eu lle. O ganlyniad ni ddisgrifir hwy yn y canllawiau hyn. Fodd bynnag, gan fod y rhwydwaith analog wedi cau, anogir aildefnyddio'r un safleoedd er mwyn lleihau'r angen am safleoedd newydd i'r gorsafoedd ail a thrydedd genhedlaeth.

iv. Cyfathrebu Symudol Ail Genhedlaeth (System Fyd-Eang ar gyfer Cyfathrebu Symudol, GSM)

15. Systemau Cellog Digidol GSM yw'r genhedlaeth gyfredol o rwydweithiau cyfathrebu symudol a gyflwynwyd i'r DU ddechrau'r 1990au. Maent yn darparu ar gyfer defnyddwyr ffonau symudol ac erbyn hyn yn gwasanaethu ardal sy'n cwmpasu dros 98% o boblogaeth y DU. Er bod y gweithredwyr wedi cyrraedd y targedau cwmpas cychwynnol, a oedd yn ofynnol gan y systemau ail genhedlaeth yn ôl amodau eu trwydded, rhaid iddynt barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, gan gynnwys ymateb i bob galw rhesymol am wasanaeth gan y cwsmeriaid.

16. Mae system gellog yn estyn ei chwmpas trwy ddarparu rhwydwaith o orsafoedd radio, pob un yn cwmpasu ardal (cell) benodol. Mae pob gorsaf yn gyfleuster sy'n darparu gwasanaeth trosglwyddo a derbyn signalau radio.

***Macrogelloedd* sy'n darparu prif strwythur y rhwydwaith gorsafoedd. Mae allbwn pwr gorsafoedd macrogell fel arfer yn ddegau o watiau, a gallant gyfathrebu â ffonau dros bellter o 35 cilometr (22 milltir).**

***Microgelloedd* a ddefnyddir i fewnlenwi a gwella'r prif rwydwaith, yn arbennig lle mae nifer y galwadau'n uchel. Lleolir antenâu microgell ar lefel y stryd, fel arfer ar waliau allanol adeileddau sy'n bodoli eisoes, megis polion lampau neu eitemau eraill sydd ar y stryd. Maent yn llai nag antenâu macrogell ac yn aml pan y'u lleolir ar adeileddau sy'n bodoli eisoes, mae modd iddynt ymddangos fel nodweddion adeiladau. Mae allyriant pwr y gorsafoedd microgell yn llai nag allyriant y gorsafoedd macrogell (ychydig watiau fel arfer) ac y mae eu cyrhaeddiad cyn lleied ag ychydig gannoedd o fetrau.**

Mae allbwn pwr y gorsafoedd *picogell* yn is na rhai'r microgelloedd (fel arfer, ychydig watiau neu lai). Fel arfer, fe'u lleolir y tu mewn i adeiladau lle nad yw eu cwmpas yn dda neu lle mae nifer fawr o ddefnyddwyr, megis meysydd awyr, gorsafoedd trenau neu ganolfannau siopa.

17. Arweinir y systemau hyn gan y galw amdanynt; oherwydd y cynnydd yn y defnydd o ffonau symudol mae'r gweithredwyr yn ehangu eu rhwydweithiau'n barhaus, i fodloni anghenion y cwsmer am wasanaeth ac ansawdd da. Mae'r angen mwyaf am safleoedd gorsaf yn digwydd mewn ardaloedd adeiledig ac o fewn milltir neu ddwy i'r prif ffyrdd, lle mae'r galw mwyaf am alluoedd rhwydwaith.

18. Gweithredwyr y rhwydweithiau sy'n cynllunio maint pob cell gan ystyried nifer o ffactorau ond yn benodol, nifer disgwylidig y tanysgrifwyr y bydd arnynt angen mynediad i'r system yn ystod yr oriau brig. Mewn ardaloedd lle mae dwysedd y traffig yn fwy nag y gall y rhwydwaith ymdopi ag ef, gellir ehangu'r galluoedd naill ai trwy

ychwanegu safleoedd newydd (macrogelloedd neu ficrogelloedd), neu trwy rannu'r celloedd presennol yn ddau, a thrwy hynny ddyblu eu galluoedd. Er mwyn rhannu celloedd mae'n ofynnol gosod mwy o antenâu ar safle'r orsaf neu ddefnyddio gorsaf newydd.

19. Mae lleoliad yr antenâu trosglwyddo yn bwysig gan na ellir caniatáu i signalau o'r naill gell ymyrryd â chell arall ar yr un amledd. Er mwyn osgoi manau dall y tu ôl i adeiladau a bryniau, rhaid gosod yr antenâu fel arfer yn uchel i fyny. Y lle gorau i osod antenâu mewn ardal drefol yn aml yw ar ben un o'r adeiladau sydd yn o'n barod.

20. Mae gweithredwyr systemau cellog fel arfer yn defnyddio antenâu fertigol o'r math aml-bolyn 1-3 metr o hyd, ac yn gosod adlewyrchyddion ar rai ohonynt. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen gosod nifer o antenâu microdon daearol bach (0.3m-1.2m) ar y gosodiad antenâu cellog i gysylltu'r orsaf â'r gyfnewidfa, er enghraifft. Fel arfer, mae cyfaint y gorchudd a osodir i letya'r cyfarpar atodol rhwng 4 a 35 metr ciwbig.

21. Mae pedwar rhwydwaith cenedlaethol, pob un o'r pedwar yn gweithredu ar 1800MHz, a dau ohonynt yn defnyddio 900MHz yn ogystal.

v. Cyfathrebu Symudol Trydedd Genhedlaeth ("3G" neu "UMTS", sef y System Delathrebu Symudol Gyffredinol)

22. Mae 3G yn disgrifio set o safonau digidol ar gyfer telathrebu yn y dyfodol. UMTS yw un o'r safonau 3G, sef yr un y mae holl weithredwyr y DU wedi dewis ei mabwysiadu. Mae'r safonau hyn yn galluogi defnyddwyr ffonau symudol i gael mynediad i wasanaethau gwell trwy gyfrwng cyfraddau data uwch nag a gynigir gan GSM. Mewn arwerthiant yn Ebrill 2000, gwerthodd Llywodraeth y DU bum trwydded i weithredwyr cyfathrebu symudol trydedd genhedlaeth. Mae pob un o'r gweithredwyr wedi ei drwyddedu i weithredu rhwydwaith 3G cenedlaethol. Yn ôl amodau'r trwyddedau 3G, mae'n ofynnol bod y gweithredwyr yn adeiladu rhwydwaith a fydd yn cwmpasu 80% o'r boblogaeth erbyn 2007.

23. Mae pedwar o'r gweithredwyr 3G hefyd yn weithredwyr GSM y DU, ac y mae disgwyl y bydd modd iddynt aildefnyddio'u hisadeiledd presennol mewn llawer achos i gyflenwi rhai o ofynion eu rhwydweithiau 3G newydd. Mae gofyn i'r pumed gweithredwr adeiladu ei rwydwaith o ddim. Bydd disgwyl iddynt ddefnyddio adeileddau sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys y rhai sy'n eiddo i weithredwyr a chyrrff rheoli safleoedd radio eraill), er ei bod yn debygol y bydd angen iddynt ddatblygu nifer sylweddol o safleoedd newydd.

vi. System Gefnffyrdd Ddaearol (TETRA)

24. Safon technoleg ddigidol uwch a hyrwyddir yn Ewrop yw TETRA. Mae'n safon ddigidol ddelfrydol ar gyfer Radio Symudol Mynediad Cyhoeddus neu'r defnyddwyr rhwydwaith preifat y mae arnynt angen cyfleuster aml-sianel (er enghraifft gwasanaethau damweiniau priffyrdd, meysydd awyr neu safleoedd adeiladu mawr). Yn wreiddiol, trwyddedwyd dwy system TETRA genedlaethol i'w defnyddio'n gyhoeddus yn y DU, ond ymunodd y rhain â'i gilydd i ffurfio un system, a fu'n gweithredu bellach ers tua dwy flynedd. Mae rhwydwaith newydd Gwasanaethau Brys y DU hefyd yn bodloni safon TETRA ac mae ambell wasanaeth preifat ar waith yn awr. Mae gorsafoedd TETRA yn gweithredu'n debyg i orsafoedd ffonau symudol, cyn belled ag y gellir eu ffurfweddu ar batrwm cellog, a'u gweithredu gyda phwerau a phatrymau galw tebyg. Mae gan TETRA rai nodweddion arbennig ychwanegol, er mwyn galluogi rhwydweithio lleol a chyfleusterau gor-redeg ar gyfer galwadau diogelwch.

vii. Rhwydweithiau cenedlaethol a lleol eraill

25. Yn ychwanegol at y rhai a nodir uchod ceir rhwydweithiau cyhoeddus ar gyfer data a gwasanaethau galwadau personol, rhwydweithiau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau morwrol, awyrennol, amddiffyn a'r heddlu, a nifer o wasanaethau swyddogol eraill. Mae rhwydweithiau cenedlaethol eraill yn bod er budd y cyhoedd, ar gyfer rheilffyrdd, gwasanaethau damweiniau priffyrdd, a chynnal cyfleustodau, rhwydweithiau rhanbarthol ar gyfer awdurdodau iechyd lleol a llywodraeth leol, a nifer o rwydweithiau preifat (e.e. ar gyfer cludiant ar y ffyrdd, manwerthu, diogelwch, tacsis a negesyddion, amaeth ac ati). Mae'r gwasanaethau hyn yn defnyddio amrywiaeth o dechnolegau analog a digidol. Mae'r bandiau amledd a ddefnyddir yn amrywio'n fawr; mae angen amleddau is ar y gwasanaethau cyfathrebu symudol, tra bo angen y bandiau uwch ar y gwasanaethau sefydlog.

26. Defnyddir radio hefyd ar gyfer diddordebau hamdden. Mae llawer o'r bobl sy'n ymwneud â diwydiant yn y DU wedi dysgu am radio fel amaturiaid trwyddedig. Rhaid i amaturiaid basio arholiad i gael trwydded i weithredu; ond wedyn gallant osod antena sefydlog, yn amodol ar y rheolau cynllunio. Gan fod ar lawer ohonynt eisiau defnyddio'r amleddau tonfedd fer, mae arnynt angen antenâu hir tebyg i wifren.

Darlledu teledu lloeren

27. Ym maes darlledu bu twf sylweddol yng nghyrrhaeddiad a phoblogrwydd teledu lloeren. Mae darlledu teledu lloeren yn weithgaredd rhyngwladol, ohewydd y costau isadeiledd uchel iawn. Anelir signalau teledu at nifer o loerennau o orsaf loeren ddaearol ac yna fe'u hanelir yn uniongyrchol o'r lloeren i'w derbyn gan antenâu mewn cartrefi unigol ac mae nifer o ddarlledwyr yn trosglwyddo signalau o'r DU ac o wledydd Ewropeaidd eraill. Adwaenir yr antenâu mwyaf cyffredin fel dysglau lloeren. Rhaid i'r antenâu fod o fewn cylch gweld uniongyrchol y lloeren ddaearsefydlog, ac y mae'n rhaid eu gosod y tu allan i adeiladau bron bob amser. Mae'r lloerennau a ddefnyddir ar gyfer gwahanol wasanaethau mewn safleoedd orbitol gwahanol, a rhaid cael gwahanol antenâu i'w derbyn, oni ddefnyddir antenâu llywiadwy neu antenâu arbenigol eraill.

28. Bydd lleoliad dysgl loeren ar adeilad yn dibynnu felly ar gyfeiriad y lloeren. Bydd maint y ddysgl yn dibynnu ar y dechnoleg a ddefnyddir, cryfder y signal a'r posibilrwydd o ymyriant gan drosglwyddiadau o loerennau eraill a allai fod mewn safleoedd cyfagos.

Mewn llawer achos, gellir defnyddio dysglau 60cm neu lai o faint, ond gall dysglau mwy o 80 neu 90 centimetr fod yn angenrheidiol mewn rhannau o'r gorllewin a'r gogledd ac ar gyfer gwasanaethau teledu lloeren penodol, megis y rhai a anelir o wledydd Ewropeaidd eraill. Gall dysgl fwy fod yn angenrheidiol hefyd pan yw'n cyflenwi rhaglenni i fwy nag un set deledu.

Mae datblygiadau newydd mewn technoleg antenâu yn dod â mathau newydd o antenâu i'r farchnad gyda nodweddion gweledol gwahanol.

29. Mae'r antenâu ar gyfer derbyn signalau darlledu digidol fel arfer yn llawer llai a mwy disylw na'u rhagflaenwyr analog.

Darlledu daearol

30. Mae darlledu daearol digidol yn defnyddio'r erialau a ddefnyddir eisoes ar gyfer derbyniad domestig.

Derbyn signalau

31. Mae'r trwyddedeion sy'n darparu gwasanaethau darlledu a gwasanaethau telathrebu eraill fel arfer yn dibynnu ar gael signal radio da ar gyfer eu derbynyddion arfaethedig. Er enghraifft, er mwyn cael derbyniad da ar y teledu, mae angen i'r erial sy'n derbyn fod o fewn cyrhaeddiad y trosglwyddydd, yn ardal wasanaethu arfaethedig y trosglwyddydd. Er nad oes modd i'r darlledwyr warantu derbyniad da i bawb, mae'n ofynnol dan amodau eu trwyddedau eu bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel; rhaid iddynt sicrhau a chynnal signal boddhaol ledled pob ardal y gellir ei dderbyn ar yr offer a argymhellir (gweler Atodiad 2). Gall codi adeiladau newydd, neu adeileddau eraill, megis tyrbinau gwynt, ymyrryd â gwasanaethau darlledu a gwasanaethau telathrebu, a gall y posibilrwydd o ymyriant o'r fath fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol (gweler paragraffau 89-91 isod).

CYNLLUNIAU DATBLYGU

32. Dylai cynlluniau datblygu ddarparu ar gyfer datblygu telathrebu drwy gymryd anghenion strategol rhwydweithiau telathrebu i ystyriaeth. Dylai'r polisiau mewn cynlluniau datblygu gymryd yr hyn a ganlyn i ystyriaeth:

- agwedd polisi cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad at gynllunio ar gyfer datblygiadau telathrebu, fel a nodir ym Mhennod 12 Polisi Cynllunio Cymru;
- gofynion Deddf Telathrebu 1984;
- yr angen i leihau effaith datblygiadau i'r eithaf, ac yn benodol yr angen i ddiogelu'r amgylcheddau gorau a'r rhai mwyaf sensitif;

- y cyfyngiadau a osodir gan natur y rhwydwaith a'r dechnoleg delathrebu;
- canlyniadau'r ymgynghori cynnar rhwng awdurdodau cynllunio a gweithredwyr telathrebu, i beri y gellir ystyried gofynion y rhwydweithiau telathrebu, y llwybrau datblygu ac ystyried y llwybr a'r camau a bennir i ddatblygu'r rhwydwaith.

33. Mewn cynlluniau datblygu gellir dynodi safleoedd penodol ar gyfer datblygiadau telathrebu mawr megis mastiau tal er mwyn annog rhannu safleoedd, a gellir cynnwys polisïau ar yr hyn a ganlyn:

- lleoliad a golwg allanol y cyfarpar, gan gynnwys unrhyw ofynion ynghylch y lleoliad a'r tirlunio gyda'r bwriad o leihau effaith offer o'r fath ar amwynder, tra'n parchu effeithlonrwydd gweithredol;
- dan ba amgylchiadau y gall awdurdod cynllunio:

i. benderfynu bod rhag-gymeradwyaeth yn ofynnol ar gyfer lleoliad ac ymddangosiad allanol datblygiadau telathrebu penodol (gweler paragraff 41 isod);

ii ymyrryd i geisio adleoli antena a osodwyd o dan hawliau datblygu a ganiateir, er mwyn lleihau ei heffaith ar olwg allanol adeilad (gweler paragraff 39 isod).

34. Gall y cyfiawnhad rhesymegol o ran y polisïau hyn gynnwys meini prawf ar gyfer mynd i'r afael â datblygiad telathrebu penodol fel mater *de minimis*.

RHEOLI DATBLYGU

Mân ddatblygiadau telathrebu

35. Hwyrach na fydd rhai mân weithrediadau neu fân newidiadau yn y modd y defnyddir tir yn gyfystyr â datblygu y bydd angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Er enghraifft, hwyrach y bydd llawer o'r systemau antena lleiaf o fewn cwrpas yr egwyddor *de minimis* arferol; neu hwyrach na fyddant yn effeithio'n sylweddol ar olwg allanol yr adeilad lle y gosodir hwy, ac na fyddent felly'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o ddatblygu. Mae'r mwyafrif o erialau teledu confensiynol a'u gosodiadau neu eu polion wedi'u trin fel hyn ers tro byd, a dylid parhau i drin offer telathrebu bach yn y modd hwn yn gyffredinol (waeth pwy sy'n ei osod).

Wrth eu gosod, gellir trin rhai microgelloedd, megis y rhai sy'n debyg i larymau lladron, fel hyn.

36. Yn ôl telerau eu trwyddedau, mae'n ofynnol i rai gweithredwyr systemau cod telathrebu roi 28 diwrnod o rybudd i'w hawdurdodau cynllunio lleol o'u bwriad i osod unrhyw offer telathrebu, oni bai eu bod yn cyflwyno cais am rag-gymeradwyaeth neu am ganiatâd cynllunio. Nid oes ffi am y rhybudd hwn.

Hawliau datblygu a ganiateir

37. Mae llawer o fân ddatblygiadau telathrebu yn ddatblygu a ganiateir. Er hynny, mewn rhai amgylchiadau gall arfer hawl datblygu a ganiateir gael effaith ddifrifol ar amwynder. Pan fo awdurdod cynllunio lleol yn credu bod angen tynnu'r hawl yn ôl, gall gyflwyno cyfarwyddyd³.

38. Ni ddylid tynnu yn ôl hawliau datblygu a ganiateir onid oes bygythiad real a phenodol i'r man lle mae'r datblygu i ddigwydd. Daw unrhyw gyfarwyddyd a roddir mewn perthynas ag antenâu lloeren ar dai annedd i rym ar unwaith, ond daw i ben ar ddiwedd chwe mis o'r dyddiad y rhoddwyd ef, onid yw'r Cynulliad wedi ei wrthod neu'i gadarnhau cyn hynny⁴. Bydd gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo unrhyw gyfarwyddyd sy'n ymwneud ag offer gweithredwyr systemau cod a datblygiadau telathrebu eraill cyn ei roi⁵. Fel rheol ni chymeradwyr cyfarwyddiadau cyffredinol sy'n amcanu i orfodi rheolaethau cynllunio llawn ar amrediad eang o ddatblygiadau telathrebu. Ond os yw lleoliad gwledig neu drefol penodol yn debygol o ddenu datblygiad telathrebu sy'n rhy amlwg neu sy'n amhriodol, a fyddai'n fygythiad difrifol i'r amwynder, bydd y Cynulliad yn ystyried gyda chydymdeimlad unrhyw gyfarwyddiadau a gyflwynir i'w cymeradwyo.

39. Mae cyfle hefyd i'r awdurdod cynllunio lleol ymyrryd, lle bo'n briodol, â manylion datblygiad penodol a ganiateir, heb ddiddymu'r hawl ei hun. Un o amodau'r hawl datblygu a ganiateir i osod offer telathrebu penodol ar adeilad yw y dylid lleoli'r offer, cyn belled ag y bo'n ymarferol, er mwyn lleihau ei effaith ar ymddangosiad allanol yr adeilad y gosodir ef arno. Os nad yw awdurdod cynllunio lleol o'r farn bod antenna, er enghraifft, wedi'i leoli gan ystyried gofynion technegol a gofynion diogelwch (er enghraifft, yn achos antenâu teledu lloeren, y gofynion llinell golwg ac ansawdd llun), gall gyflwyno rhybudd tor-amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r antenna gael ei hail-leoli. Y sail ar gyfer rhybudd o'r fath fyddai methiant i gydymffurfio ag amod yr hawl datblygu a ganiateir, ac felly nad oedd yr hawl datblygu a ganiateir ar gael ar gyfer y datblygiad ei hun. Nid yw'r cyfyngiad hwn ar hawliau datblygu a ganiateir yn caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol ddiddymu'r hawl i osod yr antenna, dim ond i reoli manylion y gosod; felly, mewn unrhyw ymyrraeth o'r fath, dylai'r awdurdod awgrymu lleoliad y maent yn ei ffafrio i beri bod yr antenna yn llai amlwg.

40. O dan hawliau datblygu a ganiateir, dylid symud unrhyw offer telathrebu o'r tir, yr adeilad neu adeiledd arall cyn gynted ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol pan nad oes angen yr offer mwyach ar gyfer telathrebu. Dylai'r tir, yr adeilad neu'r adeiledd hwnnw gael ei adfer i'w gyflwr cyn y datblygiad, neu i unrhyw gyflwr arall y gallai'r awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr gytuno arno yn ysgrifenedig. Os na chyflawnir hyn, gall yr awdurdod cynllunio lleol gyflwyno rhybudd tor-amod sy'n ei gwneud yn ofynnol symud yr offer. Y sail ar gyfer hysbysiad o'r fath fyddai na chydymffurfiwyd â'r hawl datblygu a ganiateir, ac felly nad oedd yr hawliau datblygu a ganiateir ar gael ar gyfer y datblygiad ei hunan.

³Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) O.S. Rhif 1995/418, fel y'i diwygiwyd; GPDO, Erthygl 4

⁴ GPDO, Erthygl 5(4)

⁵ GPDO, Erthygl 5(1)

Datblygiad lle mae cais am rag-gymeradwyaeth yn ofynnol

41. Rhaid i weithredwyr system god wneud cais i'r awdurdod cynllunio am ddyfarniad⁶ cyn gosod offer telathrebu penodol i weld a oes gofyn iddo gymeradwyo lleoliad ac ymddangosiad y datblygiad. Bydd cais o'r fath yn galluogi'r awdurdod i ystyried, o fewn 56 diwrnod, lleoliad a golwg allanol y datblygiad arfaethedig. Rhoddir canllawiau ar y weithdrefn ar gyfer rhag-gymeradwyo yn Atodiad 1.

Trwy gynnwys polisiau eglur yn y cynlluniau datblygu, gellir cynorthwyo'r awdurdodau i wneud penderfyniadau cyflym a chytbwys ar y ceisiadau hyn.

42. Mewn achosion lle bwriedir gosod mast o dan hawliau datblygu a ganiateir o fewn 2 cilometr i faes awyr, rhaid i'r cais i'r awdurdod cynllunio am rag-gymeradwyaeth gynnwys tystiolaeth bod yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA)⁷, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn⁸ neu weithredwr y maes awyr, fel y bo'n briodol, wedi ei hysbysu o'r cynnig. Dylai'r awdurdod cynllunio lleol gymryd safbwyntiau'r rhain i ystyriaeth wrth benderfynu a oes angen cymeradwyo'r manylion o flaen llaw.

43. Mae'n bwysig bod y datblygwr yn darganfod pwy sy'n gyfrifol am reoli'r maes awyr. Gall gael gwybod hyn trwy'r awdurdod cynllunio lleol neu trwy gysylltu'n uniongyrchol â'r maes awyr.

Datblygiad lle mae cais am ganiatâd cynllunio'n ofynnol

44. Lle bo cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer datblygiad, dylai ceisiadau gael eu penderfynu yn unol â'r cynllun datblygu oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol. Mewn llawer o achosion, mae'r polisiau sy'n bodoli eisoes wedi'u paratoi yn nhermau adeiladau a defnydd tir confensiynol, a hwyrach nad ydynt yn ddigonol i ddelio â chyfarpar telathrebu neu anghenion gweithredol eraill.

45. Gall fod yn briodol gosod amodau tebyg i'r rhai a nodir ym mharagraff 40 ar gyfer datblygiad lle mae cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Cyfyngiadau technegol

46. Mae gan bob system delathrebu wahanol antenâu, anghenion lleoli a nodweddion eraill. Mae angen i awdurdodau cynllunio gadw mewn cof unrhyw gyfyngiadau technegol ar y lleoliad a'r datblygiad arfaethedig. Dylid ystyried pob cais yn unol â'r cynllun datblygu oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol. Mae arwyddocâd y datblygiad arfaethedig fel rhan o rwydwaith cenedlaethol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

⁶ GPDO, Atolden 2. Rhan 24, paragraff A.3, fel y'i cynhwyswyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir)(Diwygio)(Cymru) 2002, OS Rhif 2002/1878

⁷ CAA Safeguarding Co-ordinator, Aerodrome Standards Department, Second Floor West, Aviation House, Gatwick Airport South, RH6 0YR Ffôn: 01293 573264

⁸ Safeguarding, Defence Estates, Blakemore Drive, Sutton Coldfield, West Midlands, B75 7RL Ffôn: 0121 311 3818

Trefn glirio ar gyfer safleoedd radio

47. Mae angen i holl weithredwyr cyfarpar trosglwyddo radio fynd trwy broses drwyddedu sy'n cynnwys, pan fo angen, ymdrin â'r safleoedd trosglwyddo yn unol â gweithdrefn yr Asiantaeth Radiogyfathrebu ar gyfer clirio safleoedd radio. Pwrpas y weithdrefn hon yw ystyried effaith sefydlu safleoedd radio newydd, neu addasu safleoedd sy'n bodoli eisoes, o safbwynt ymyriad radio posibl ar wasanaethau hanfodol Llywodraeth a diogelwch. Yn y rhan fwyaf o achosion, cychwynnir y weithdrefn glirio safleoedd ar ôl derbyn caniatâd cynllunio. Nid yw'r ffaith nad yw safle wedi ei glirio eto yn berthnasol i'r ystyriaeth o gais cynllunio.

Gwerthoedd eiddo

48. Gall awdurdodau dderbyn sylwadau ynghylch effaith honedig datblygiad telathrebu arfaethedig ar werth eiddo. Nid lle'r system gynllunio yw amddiffyn buddiannau preifat un person rhag gweithgareddau person arall. Er y gall ystyried budd y cyhoedd mewn achos penodol gyfrannu at ddiogelu buddiannau preifat, y cwestiwn perthnasol yw nid a fyddai datblygiad penodol yn peri colled ariannol neu golled arall i berchnogion a phreswylwyr eiddo cyfagos, ond yn hytrach a fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar yr ardal yn gyffredinol, ac ar amwynderau y dylid eu diogelu er budd y cyhoedd.

TREFNIADAU YMGYNGHORI

Trafodaethau cyn datblygu

49. Mae'n amod mewn trwyddedau telathrebu bod gweithredwr yn darparu manylion ysgrifenedig y datblygiad y mae'n disgwyl ei gyflwyno yn ardal yr awdurdod wrth hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol o'i gynnig datblygu am y tro cyntaf. Yn ychwanegol, mae'r gweithredwyr ffonau symudol wedi ymrwmo i ddarparu cynlluniau ehangu blynyddol i'r awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer ardal pob awdurdod. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog yn gryf y dylai gweithredwyr ac awdurdodau cynllunio lleol gynnal trafodaethau blynyddol ar sail y cynlluniau hyn a gwybodaeth arall. Bydd hyn yn rhoi cyfle cynnar i drafod y cyfyngiadau technegol ac amgylcheddol ac i archwilio dulliau eraill posibl o weithredu, yn enwedig cyfleoedd i rannu mastiau a safleoedd, a hefyd trafod lleoli neu ddylunio'r cyfarpar yn wahanol.

50. Gall awdurdodau leihau problemau cynllunio i ymgeiswyr am ddatblygiadau telathrebu ac i'r gymuned trwy helpu ymgeiswyr i ddod o hyd i safleoedd sy'n bodoli eisoes a safleoedd posibl eraill, trwy beri bod eiddo awdurdod lleol addas ar gael i ddefnyddwyr a thrwy annog eraill i wneud yn yr un modd gyda'u heiddo hwy.

Trafodaethau cyn gwneud cais

51. Dylai trafodaethau cyn gwneud cais, rhwng gweithredwyr ac awdurdodau cynllunio lleol ynghylch cynnig o ddatblygiad penodol, gael eu cynnal yng nghyd-destun strategaeth y gweithredwr ar gyfer datblygu telathrebu yn yr ardal. Dylai'r gweithredwyr gynnal trafodaeth cyn y cais gyda chyrrff eraill sydd â buddiant yn y

datblygiad arfaethedig, megis grwpiau preswylwyr, cynghorau cymuned neu gyrff amwynderau.

52. Pan fo cynnig am ddatblygiad telathrebu yn debygol o effeithio ar ardaloedd a ddynodwyd, dylai Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu Cadw gymryd rhan yn y trafodaethau hynny. Dylid ymgynghori â Chyfarwyddiaeth Drafnidiaeth y Cynulliad neu'r awdurdod priffyrdd lleol ynghylch datblygiad arfaethedig sy'n effeithio ar briffyrdd.

Gall trafodaethau o'r fath ddatgelu gwrthdaro posibl rhwng buddiannau yn gynnar yn y broses.

Yn aml gellir osgoi ymchwiliadau cynllunio ac oedi costus drwy gytuno, er enghraifft, ar newidiadau cymharol fach yn y strategaethau llwybr a'r dewis o safle.

Cyhoeddusrwydd

53. Cynghorir awdurdodau cynllunio lleol i ystyried, fesul cais, a fydd y trefniadau ymgynghori statudol ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio a rhag-gymeradwyaeth yn ddigonol i roi gwybod i fuddianwyr am ddatblygiad penodol. Dylai trafodaethau gyda'r datblygwr cyn y cais fod wedi helpu'r awdurdod i ganfod pwy yw'r buddianwyr. Anogir awdurdodau yn gryf i drefnu unrhyw gyhoeddusrwydd ychwanegol y tybiant sy'n angenrheidiol, er mwyn rhoi cyfle i'r bobl sy'n debygol o deimlo effaith y datblygiad arfaethedig i fynegi eu barn wrth yr awdurdod. Dylai'r awdurdodau lleol gofio y gall hyn gynnwys pobl o'r tu allan i ddalgylch yr awdurdod mewn rhai achosion.

Ysgolion / colegau

54. Pan fo gweithredwr yn cyflwyno cais i'r awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd cynllunio neu rag-gymeradwyaeth ar gyfer gosod, newid neu amnewid gorsaf ffôn symudol naill ai ar safle ysgol neu goleg, neu gerllaw ysgol neu goleg, mae'n bwysig bod gweithredwyr yn trafod y datblygiad arfaethedig gyda chorff perthnasol yr ysgol neu'r coleg dan sylw cyn cyflwyno unrhyw gais o'r fath i'r awdurdod cynllunio lleol. Wrth wneud y cais dylai'r gweithredwr ddarparu tystiolaeth i'r awdurdod cynllunio lleol ei fod wedi ymgynghori â chorff priodol yr ysgol neu'r coleg (e.e. corff llywodraethol yr ysgol neu gorfforaeth/sefydliad y coleg).

55. Lle mae cais wedi ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd cynllunio neu rag-gymeradwyaeth ar gyfer gosod, newid neu amnewid gorsaf ffonau symudol naill ai ar safle ysgol neu goleg neu gerllaw, dylai'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â'r cyrff perthnasol a chymryd unrhyw farn berthnasol a fynegir i ystyriaeth. Dylai'r ymgynghori fod ar ffurf hysbysiad ysgrifenedig i gorff llywodraethol yr ysgol neu gorfforaeth/sefydliad y coleg yn gwahodd unrhyw sylwadau ganddynt erbyn dyddiad penodedig.

YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL

56. Bydd diogelu rhag amhariad gweledol a goblygiadau hynny o ran datblygiad dilynol y rhwydwaith yn ystyriaethau pwysig wrth benderfynu ynghylch ceisiadau.

Gall natur rhai datblygiadau telathrebu, mewn rhai achosion, achosi gwrthdaro amlwg â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol sefydledig.

Yn aml gyda mastiau ac antenâu mae angen uchder gweithredu penodol er mwyn i'r signalau glirio coed ac adeiladau trefol. Hwyrach y bydd angen lleoliadau penodol, felly, ar gyfer datblygiadau telathrebu, er mwyn iddynt weithio'n effeithiol. Ond mae'n bosibl mai'r rheini fydd yr union lleoliadau amlwg a fyddai'n herio'r polisïau a gynlluniwyd i ddiogelu'r tirlun neu ansawdd yr amgylchedd mewn ardaloedd trefol. Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i amddiffyn ardaloedd o'r fath ac i'r angen i ddiogelu ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol penodol. Mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol dylai cynigion gael eu dylunio a'u lleoli mewn modd sensitif a rhaid i'r datblygwr ddangos nad oes unrhyw leoliad arall addas ar gael.

Rhannu mastiau a safleoedd

57. Mae'n rhesymol i'r awdurdodau cynllunio lleol ddisgwyl i ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio ar gyfer codi mastiau newydd ddangos tystiolaeth eu bod wedi archwilio'r posibilrwydd o godi antenâu ar adeilad, mast neu adeiledd arall sy'n bodoli eisoes, megis peilonau trydan. Mae'n ofynnol, o dan amodau trwyddedau gweithredwyr cod, i'r ymgeiswyr archwilio'r posibilrwydd o rannu safle radio sy'n bresennol eisoes. Dylai'r dystiolaeth hon gael ei chyflwyno gydag unrhyw gais a wneir i'r awdurdod cynllunio lleol, boed am rag-gymeradwyaeth neu am ganiatâd cynllunio.

58. Os nad ystyrir bod y dystiolaeth o ystyried safleoedd eraill yn foddhaol, gall fod cyfiawnhad i'r awdurdod cynllunio lleol, neu'r Cynulliad ar apêl, wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r awdurdod roi rhesymau clir pam ei fod yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn anfoddhaol. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol yw barnu i gychwyn a yw'r wybodaeth a ddarparwyd i'r perwyl hwn yn foddhaol. Fodd bynnag dylai awdurdod gadw mewn cof y cyfyngiadau technegol ar ddatblygu rhwydweithiau wrth benderfynu'r cais sydd gerbron.

59. Wrth ystyried safleoedd eraill, dylai'r awdurdod fod yn ymwybodol o effaith bosibl unrhyw ddatblygiadau ar y safleoedd hynny ar yr amgylchedd lleol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os yw dewis safle arall yn golygu ailddatblygu mast sy'n bod eisoes er mwyn ei rannu. Mewn rhai amgylchiadau gall rhannu mast olygu cynyddu ei uchder neu'i gynhwysedd adeileddol, a thrwy hynny beri i'r mast fod yn fwy amlwg. Yn amodol ar nodweddion y lleoliad, gall rhannu'r safle yn hytrach na rhannu'r mast fod yn fwy priodol.

Weithiau mae ail osodiad, er enghraifft wrth ymyl prif osodiad, neu y tu ôl iddo, yn ateb mwy buddiol o safbwynt yr amgylchedd a chynllunio. Bydd angen i'r awdurdodau lleol ystyried yr effaith gynyddol ar yr amgylchedd oherwydd yr antenâu ychwanegol sy'n rhannu mast neu fastiau sy'n rhannu safle. Mewn achosion eraill, gall ystyriaethau technegol a dylunio awgrymu safle newydd. Dylai awdurdodau cynllunio lleol a gweithredwyr ymdrechu gyda'i gilydd, fesul cais, i ddod o hyd i'r ateb gorau i'r amgylchedd ac i'r rhwydwaith.

60. Os cytunir bod rhannu mast neu safle penodol yn y dyfodol yn ddymunol, bydd yr awdurdodau'n awyddus i fodloni eu hunain y gall y safle letya unrhyw gyfarpar ychwanegol a fyddai'n ofynnol.

61. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried y byddai'n well cyfyngu datblygiadau mast i un safle mewn ardal er budd amwynder gweledol, hwyrach y bydd yr awdurdod yn dymuno trafod, gyda'r gweithredwyr a pherchennog y tir dan sylw y posibilrwydd o gytuno ar rwymedigaeth gynllunio⁹ er mwyn creu gofyniad ymrwymol a gorfodadwy bod safle'r mast ar gael i'w rannu.

62. Mewn unrhyw achos o anghydfod ynghylch rhannu mast neu safle, gall y naill barti neu'r llall ofyn i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu ddatrys y mater.¹⁰ Gall y Cyfarwyddwr Cyffredinol gyfarwyddo'r cyfathrebwyr perthnasol i rannu os yw'n ystyried hynny'n briodol.¹¹ Fodd bynnag nid yw'r pwerau sydd ar gael yn cwmpasu gwrthodiad trydydd parti, megis perchennog tir, i ganiatáu rhannu'r mast.

Cofrestrau mastiau

63. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod wedi ffurfio barn o flaen llaw, yn enwedig wrth baratoi cynllun datblygu, ynghylch pa safleoedd yn eu hardal allai fod yn addas ar gyfer datblygiadau telathrebu. Gallai'r rhain gynnwys mastiau, adeiladau ac adeileddau presennol y gellid gosod antenâu ychwanegol arnynt, a safleoedd lle gallai mastiau newydd fod yn dderbyniol. Anogir awdurdodau yn gryf i gadw cofrestr o fastiau ac adeileddau eraill y gellid gosod cyfarpar ynghlwm wrthynt. Bydd cofrestr o'r fath o gymorth i weithredwyr wrth iddynt ystyried safleoedd antenna posibl yn ardal yr awdurdod lleol. Os yw gweithredwr yn gwneud cais mewn perthynas â lleoliad nad yw ar y gofrestr safleoedd, mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol ddisgwyl i'r ymgeisydd ddangos na fyddai'n ymarferol defnyddio unrhyw safle ar y gofrestr yn lle'r un a gynigiwyd.

64. Er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i rannu mastiau a safleoedd, anogir awdurdodau cynllunio lleol i droi at y gronfa ddata genedlaethol¹² y mae'r Asiantaeth Radiogyfathrebu yn ei sefydlu, sy'n rhoi manylion yr holl orsafoedd ffonau symudol a'u hallyriannau (gweler paragraff 82).

Lleoli a dylunio

65. Hwyrach y bydd y pryderon ynghylch lleoli a dylunio yn canolbwyntio'n bennaf ar y math o fast a ddefnyddir a'i effaith, yn enwedig os lleolir mewn ardal ddynodedig. Bydd uchder mast, y datblygiadau atodol a'r cyfleoedd i dirlunio a sgrinio hefyd yn ystyriaethau pwysig. Ond bydd gan lawer o'r antenâu anghenion lleoli arbennig oherwydd eu cyrhaeddiad cyfyngedig neu'r cylch gweld. Dylai awdurdodau gymryd yr anghenion hyn i ystyriaeth yn llawn. Gall cyfyngiadau mympwyol mewn un ardal, megis cyfyngiadau ar uchder mastiau, arwain at broblemau ymyriant a chreu problemau cyfatebol mewn ardal gyfagos hefyd, megis gorfodi gosod mast talach na fyddai'n angenrheidiol fel arall i ehangu'r cylch gweld, neu osod mwy nag un mast. Bydd angen i'r awdurdodau sicrhau bod yr holl wybodaeth gynllunio berthnasol ganddynt, gan gynnwys manylion am unrhyw gynigion perthynol am fastiau eraill, a sut y mae'r cynnig yn cysylltu â'r rhwydwaith, fel y gellir ystyried y ceisiadau'n llawn.

⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 106.

¹⁰ Rheoliadau Telathrebu (Rhyng-gysylltu) 1997, OS1997 Rhif. 2931.

¹¹ Datganiad 6 Tachwedd 1998 gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu ar gael ar www.oftel.gov.uk/publications/1995-1998/competition/mast1198.htm neu oddi wrth Research and Intelligence Unit, OFTEL, 50 Ludgate Hill, London, EC4M 7JJ (Ffôn 020 7634 8761).

¹² Cronfa ddata a reolir gan Occupiers Property Databank (is-adran o Investment Property Databank Limited)

66. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol sicrhau eu bod yn deall y cyfyngiadau y mae'r gweithredwr yn eu hwynebu, boed oherwydd natur y dechnoleg neu'r gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwasanaeth. Dylai'r gweithredwyr fod yn barod i esbonio'r cyfyngiadau technolegol a chyfreithiol, ac i drafod dichonoldeb safleoedd eraill. Unwaith eto, dylai'r trafodaethau cyn y cais fod o gymorth i ganfod a datrys materion yn gynnar, a hwyluso'r broses ffurfiol o wneud cais.

67. Wrth geisio canfod yr ateb gorau ar gyfer safle unigol, dylai awdurdodau a gweithredwyr ystyried defnyddio dylunio a chuddliwio priodol er mwyn lleihau effaith y datblygiad ar yr amgylchedd. Mewn ardaloedd dynodedig yn enwedig, dylid ceisio gwneud i'r cyfarpar ymdoddi i'r dirwedd.

68. Anogir y diwydiant telathrebu i barhau i ddatblygu atebion dylunio arloesol, nid yn unig o ran adeiledd y mastiau a'r antenâu ond o ran y defnyddiau a'r lliwiau hefyd. Mae nifer o wahanol atebion dylunio ar gael ar hyn o bryd. Mae'r atebion hyn yn cynnwys mastiau a ddyluniwyd i edrych yn debyg i ddodrefn stryd, ac ailddatblygu neu adfer eiddo sy'n bresennol eisoes i letya cyfarpar telathrebu. Hwyrach y bydd awdurdodau'n dymuno trafod gwahanol opsiynau dylunio ar gyfer cynnig datblygu penodol gyda'r gweithredwyr.

Dylid cadw mewn cof na fydd rhai dyluniadau hwyrach yn addas ar gyfer rhannu yn y dyfodol. Lle y cytunir bod safle'n addas ar gyfer rhannu mastiau yn y dyfodol, gall fod yn briodol gosod mast sydd wedi ei ddylunio'n arbennig i'w ailddatblygu'n hwylus ar gyfer rhannu.

69. Wrth ystyried dyluniad datblygiad unigol, ac yn enwedig datblygiad sy'n cynnwys mast, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i sgrinio a phlannu. Dylai arwynebedd y safle fod yn ddigon eang i gynnwys y tirlunio angenrheidiol.

70. Yn achos antenâu teledu lloeren sydd â hawliau datblygu a ganiateir¹³, ni ddylai'r polisïau yn y cynlluniau datblygu, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, rwystro deiliad y ty rhag derbyn darllediad teledu lloeren. Fodd bynnag, gall yr awdurdodau cynllunio lleol roi canllawiau i ddeiliaid tai, gwerthwyr a gosodwyr proffesiynol ynghylch lleoliad a lliw dysglau teledu lloeren. Mae'n bwysig bod dysgl yn ymdoddi i'w chefnidir; dylid ei lleoli, cyn belled ag y bo'n ymarferol, mewn man sy'n lleihau ei heffaith ar amwynder ac ar ymddangosiad allanol yr adeilad (gweler paragraff 39). Mae gosod dysglau yn agos at ffenestri a drysau'r tai cyfagos yn debygol o arwain at gwynion, a dylid osgoi hynny. Mewn blociau o fflatiau, gellir gosod systemau ar y cyd, gan osgoi gosod nifer fawr o ddysglau ar waliau a thoeau.¹⁴

71. O ran eu maint a'u heffaith weledol dros ardal eang, ychydig o broblemau cynllunio sy'n deillio fel arfer o geisiadau am ganiatâd cynllunio i osod y math o fastiau a ddefnyddir yn aml gan weithredwyr radio amatur, cwmnïau tacsis radio a defnyddwyr preifat a masnachol eraill. Mae angen i fastiau o'r fath fod yn ddigon uchel i fod yn effeithiol yn dechnegol ac wedi'u lleoli mor bell ag y bo modd oddi wrth antenâu eraill, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ymyriant. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon mawr fel rheol i effeithio'n ddifrifol ar yr amwynder lleol. Ni fydd cystal cyfle i ymgeiswyr o'r fath,

¹³ GDPO, Atodlen 2 Rhan 1; Canllawiau cynllunio i Ddeiliaid Tai ynghylch Gosod Dysglau Teledu Lloeren, DETR/Swyddfa Gymreig, 1998

¹⁴ GDPO, Atodlen 2, Rhan 25.

fel arfer, ddefnyddio safleoedd eraill na rhannu safleoedd, ac yn aml bydd angen lleoli'r mastiau ar eu hadeiladau.

Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig¹⁵

72. Mae pob datblygiad telathrebu yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau statudol arferol ar gyfer caniatâd cynllunio adeiladau rhestredig. Ni wnaethpwyd unrhyw eithriadau i'r gofynion i sicrhau caniatâd adeilad rhestredig cyn gwneud gwaith telathrebu sy'n effeithio ar adeilad rhestredig. Cynghorir unrhyw weithredwr sy'n bwriadu gwneud gwaith sy'n debygol o effeithio ar gymeriad neu olwg adeilad rhestredig i gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol. Ar gyfer gosod cyfarpar mewn neu ar adeilad cofrestredig, gall fod yn ofynnol cael caniatâd ar gyfer gwaith mewdol yn ogystal â gwaith allanol, hyd yn oed os yw'r gwaith yn fach. Yn yr un modd, mae angen caniatâd heneb gofrestrdig oddi wrth Cadw ar gyfer unrhyw waith ar heneb gofrestrdig neu ar safle heneb gofrestrdig.

YSTYRIAETHAU IECHYD

Beth yw meysydd electromagnetig (MEM)?

73. Mae ffonau symudol a'u gorsafoedd sefydlog yn trosglwyddo ac yn derbyn signalau gan ddefnyddio tonnau electromagnetig (a elwir hefyd yn feysydd electromagnetig (MEM) neu'n donnau radio). Mae MEM o'n cwmpas ym mhob man. Mae rhai MEM yn digwydd yn naturiol, er enghraifft maes magnetig y ddaear sy'n achosi i nodwyddau cwmpodau bwyntio i gyfeiriad y gogledd. Mae prosesau biolegol naturiol yn cynhyrchu meysydd trydanol a magnetig o fewn anifeiliaid a bodau dynol. Mae MEM hefyd yn codi o amrediad eang o ffynonellau a grëwyd gan ddyn, ac y maent yn bresennol lle bynnag y ceir trydan. Mae'r ffynonellau MEM a grëwyd gan ddyn yn cynnwys offer trydanol a gwifrau domestig (megis lampau, sychwyr gwallt a setiau teledu), unedau arddangos gweledol, ffonau symudol, trenau trydan a'r systemau diogelwch a ddefnyddir mewn siopau.

74. Mae ffynonellau MEM a grëwyd gan ddyn hefyd yn cynnwys llinellau pŵer trydan, trosglwyddyddion darlledu a gorsafoedd telathrebu (gan gynnwys y rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, a'r rhai sy'n rhan o'r rhwydweithiau cyfathrebu symudol). Y rhain yw'r ffynonellau a ddaw i sylw'r system gynllunio amlaf. Y ffynonellau hyn hefyd sydd yn achosi'r pryder mwyaf ymhlith y cyhoedd ynghylch yr effeithiau posibl ar iechyd.

75. Ymgynghorwyr statudol Llywodraeth y DU ar faterion diogelwch radiolegol yw'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol (NRPB). Y Bwrdd hwn sy'n darparu cyngor arbenigol ar oblygiadau MEM, yng ngoleuni'r ymchwil diweddaraf trwy'r byd. Gall yr NRPB gynnig cyngor i awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd, ac maent wedi cynhyrchu nifer o dafenni a chyhoeddiadau eraill eu hunain yn y maes hwn yn ogystal â fideo sy'n dwyn y teitl "Mobile Phone Telephony and Health". Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan y Bwrdd¹⁶ neu drwy ffonio'i linell ymholiadau i'r cyhoedd¹⁷.

¹⁵ Deddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Adrannau 7 ac 8. Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96, 'Planning and the Historic Environment: Historic Buildings and Conservation Areas'. Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96, 'Planning and the Historic Environment: Archaeology'. Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, Adran 2.

¹⁶ www.nrpb.org.uk

¹⁷ 01235 831600

Effeithiau ar iechyd oherwydd cyffyrddiad ag MEM

76. Daeth y cyhoedd yn fwyfwy ymwybodol o bresenoldeb MEM yn yr amgylchedd. Ochr yn ochr â'r ymwybyddiaeth gynyddol hon daeth pryder y gallai cyffyrddiad ag MEM gael effeithiau niweidiol posibl ar iechyd. Mae'n amlwg yn bwysig amddiffyn y cyhoedd rhag unrhyw effaith niweidiol sy'n bod.

Mae cyflwyno gwybodaeth ac addysg i'r cyhoedd hefyd yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â'u pryderon.

77. Mae effeithiau cydnabyddedig ar iechyd oherwydd cyffyrddiad â thonnau radio o systemau ffonau symudol yn gysylltiedig â thwymo meinweoedd yn y corff. Mae'r NRPB a'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Pelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP) wedi cyhoeddi canllawiau ar leihau'r cyffyrddiad â thonnau radio (gweler paragraff 87 isod).

78. Er hynny, pwynt penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd yw a allai cyffyrddiad ag MEM ar lefel isel achosi effeithiau iechyd eraill nad ydynt eto wedi'u cydnabod, megis cur pen, anhunedd, iselder, straen meddyliol ac effeithiau iechyd hirdymor eraill megis canser.

Grŵp Arbenigol Annibynnol ar Ffonau Symudol

79. Ym 1999, gofynnodd Llywodraeth y DU i'r NRPB sefydlu'r Grŵp Arbenigol Annibynnol ar Ffonau Symudol (IEGMP). Bu'r grŵp hwn yn ystyried y pryderon ynghylch yr effeithiau ar iechyd o ddefnyddio ffonau symudol, gorsafoedd sefydlog a throsglwyddyddion. Cynhaliwyd asesiad trwyadl a hollgynhwysol o'r ymchwil cyfredol a chasglwyd amrediad eang o safbwyntiau. Cyhoeddodd y Grŵp ei adroddiad (Adroddiad Stewart)¹⁸ ar 11 Mai 2000.

80. O ran gorsafoedd, mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad fod y dystiolaeth at ei gilydd yn awgrymu nad oes risg gyffredinol i iechyd pobl sy'n byw'n agos at orsafoedd, ar y sail na ddisgwylir iddynt ddod i gyffyrddiad â rhagor na ffracsiwn bach o'r hyn a ganiateir yn y canllawiau. Er hynny, mae'n bosibl y gwelir effeithiau anffafriol anuniongyrchol ar eu lles, mewn rhai achosion. Dywedir hefyd na ellir yn hyderus ddiystyru unrhyw bosibilrwydd o niwed, a bod y bylchau yn ein gwybodaeth yn cyfiawnhau gweithredu'n rhagofalus.

81. Argymhellodd y Grŵp Arbenigol Annibynnol ddull rhagofalus o ddefnyddio ffonau symudol, a oedd yn cynnwys cyfres o fesurau penodol, hyd nes ceir gwybodaeth fwy manwl a gwyddonol gadarn am unrhyw effeithiau ar iechyd.

82. Yn eu hymateb i adroddiad y Grŵp, arwyddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad eu bod yn derbyn y dull rhagofalus a argymhellir gan y Grŵp. Mae cymeradwyaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad yn gyfyngedig i'r argymhellion penodol sydd yn adroddiad y Grŵp a'u hymateb i'r argymhellion hynny. Ymhlith y rhain y mae:

¹⁸ Adroddiad Stewart ar gael ar www.iegmp.org.uk

- dylai'r allyriannau o orasfoedd ffonau symudol ddilyn canllawiau'r ICNIRP ar gyfer cyffyrddiad y cyhoedd ag MEM¹⁹. Mae mwyafrif y gorsafedd ffonau symudol eisoes yn bodloni callawiau'r ICNIRP. Er hynny, mae'r gweithredwyr ffonau symudol yn asesu ac yn addasu, pan fo'n angenrheidiol, pob un o'u safleoedd presennol er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau'r ICNIRP. Bydd pob gorsaf sefydlog ffonau symudol newydd yn dilyn y canllawiau
- cronfa ddata genedlaethol i'w sefydlu gan Lywodraeth y DU i roi manylion yr holl orsafedd sefydlog a'u hallyriannau. Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r Asiantaeth Radiogyfathrebu (AR) wedi datblygu cronfa ddata ar sail map 'Sitefinder'²⁰, sy'n dangos safleoedd trosglwyddyddion gorsafedd cellog gweithredol ac sy'n rhoi manylion amdanynt. Mae'r cyfleuster hwn ar gael ar wefan yr AR
- dylid sefydlu archwiliad annibynnol o'r allyriannau er mwyn i'r cyhoedd fod yn hyderus nad yw gorsafedd yn mynd tu hwnt i'r canllawiau a gymeradwyir. Mae'r AR, sy'n cynnal yr archwiliad hwn, wedi cwblhau archwiliad o 100 gorsaf gellog ar safleoedd ysgolion. Mae'r canlyniadau, sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan yr AR²¹, yn dangos bod lefelau allyriannau yn llawer is na chanllawiau'r ICNIRP. Yn 2002, bydd yr AR yn cynnal 100 archwiliad o orasfoedd sydd wedi'u lleoli ger ysgolion ac ysbytai
- argymhellir, mewn perthynas â gorsafedd macrogell, na ddylai'r pelydr o arddwysedd uchaf ddisgyn ar unrhyw ran o dir nac adeiladau'r ysgol onid yw'r ysgol a'r rhieni'n cytuno. Pan fo'r rhieni a/neu'r ysgol yn dymuno gwybod a yw'r pelydr o arddwysedd uchaf yn disgyn ar dir neu adeiladau'r ysgol, dylai'r ysgol gysylltu â gweithredwr yr orsaf. Mae'r gweithredwyr wedi cytuno i ddarparu gwybodaeth i'r ysgolion am lefel arddwysedd pelydriad amledd radio. Os yw'r ysgol neu'r rhieni'n pryderu'n fawr, gellir gofyn i'r gweithredwr addasu'r antena
- dylid fod parth gwaharddedig eglur o amgylch pob antena gorsaf sefydlog i atal y cyhoedd rhag dod i gyffyrddiad â phelydriad amledd radio sy'n uwch na chanllawiau'r ICNIRP (mae'r parthau gwaharddedig hyn i gwmpasu'r parth yn union o flaen ac i'r un uchder â'r antena). Dylid gosod rhybudd eglur ar drosglwyddyddion microgell a phicogell er mwyn lleihau'r risg o gyffyrddiad gormodol trwy eu hagog a hwythau'n cael eu defnyddio
- dylai'r cwmnïau ffonau symudol a'r sector cyhoeddus ariannu rhaglen ymchwil sylweddol, i'w goruchwylio gan banel sydd yn amlwg yn annibynnol.

Lansiwyd rhaglen ymchwil ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a'r diwydiant, ar gost o tua £7 miliwn, gyda phwyllgor rheoli annibynnol o dan arweiniad Syr William Stewart. Bydd yn ymchwilio i effeithiau technoleg ffonau symudol ar iechyd. Trwy hyn cedwir y sefyllfa dan arolwg a sicrhau bod Llywodraeth y DU, Llywodraeth y Cynulliad a'r cyhoedd yn gyfarwydd â chanfyddiadau'r ymchwil diweddaraf

¹⁹ Argymhelliad Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 12 Gorffennaf 1999 ar gyfyngu cyffyrddiad aelodau'r cyhoedd â meysydd electromagnetig (OHZ i 300 GHz). Off J Eur Commun L199, 59 (1995/519/EC).

²⁰ www.Sitefinder.radio.gov.uk

²¹ www.radio.gov.uk

- bod y NRPB i adolygu ymchwil pellach yn y maes hwn ac i gyflwyno adroddiad ar y gwaith hwnnw ymhen tair blynedd, neu bryd bynnag y bydd gwybodaeth newydd arwyddocaol ar gael
- dylai taflenni gwybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd ynghylch ffonau symudol ac iechyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi taflenni ar setiau llaw ffonau symudol a gorsafoedd sefydlog. Mae'r rhain ar wefan Llywodraeth y Cynulliad²² neu gellir cael copi oddi wrth y Cynulliad drwy ffonio 029 2082 5229

Ystyried effeithiau ar iechyd a chanfyddiad y cyhoedd o berygl

83. Mae'n ofyniad statudol²³ bod gofyn i bob cais am rag-gymeradwyaeth neu ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu sy'n golygu codi/gosod un neu ragor o antenâu gynnwys datganiad y bydd yr offer a'r gosodiad, pan y'i codir/gosodir, yn gweithredu yn unol â chanllawiau'r ICNIRP. Yn unol ag argymhellion y Grwp dylai'r gweithredwr hefyd ddarparu datganiad i'r awdurdod lleol ar gyfer pob safle gan ddangos ei leoliad, uchder yr antenna, nodweddion yr amledd a'r modur, a manylion yr allbwn pŵer. Lle bo gorsaf sefydlog ar gyfer ffonau symudol yn cael ei hychwanegu at fast neu safle presennol, dylai'r gweithredwr gadarnhau na fydd cyfanswm y cyffyrddiad ag MEM wedyn yn torri canllawiau'r ICNIRP.

84. Mae gweithredwyr ffonau symudol eisoes yn cadw eu hallbynnau pŵer amledd radio i'r lefelau isaf posibl sy'n gyson â darparu gwasanaeth effeithiol. Mae angen iddynt wneud hyn er mwyn lleihau'r risg o ymyriant o fewn eu rhwydwaith hwy a rhwydweithiau radio eraill. Tra bo lefel yr allbwn pŵer yn debygol o amrywio yn ystod y dydd (gan ddibynnu ar ffactorau megis nifer y bobl sy'n defnyddio eu ffonau ar amser penodol, a'u pellter oddi wrth yr orsaf), mae'r gweithredwyr wedi cadarnhau y bydd y gorsafoedd bob amser yn cadw o fewn canllawiau'r ICNIRP ar gyffyrddiad y cyhoedd ag MEM.

Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch²⁴

85. Mae gan y gweithredwyr gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Maent yn gyfrifol am asesu'r risg a allai godi i iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesu'r lefelau tebygol o gyffyrddiad ag MEM; ac am gymryd mesurau priodol i gyfyngu ar fynediad y cyhoedd (e.e. trwy osod arwyddion a ffensys gwrth-bersonél addas, a'u cadw dan glo). Dylai'r deddfwriaeth iechyd a diogelwch weithredu'n ymarferol i ddiogelu'r cyhoedd rhag effeithiau iechyd cydnabyddedig y cyfarpar telathrebu.

86. Ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol geisio dyblygu rheolaethau'r gyfundrefn iechyd a diogelwch trwy'r system gynllunio. Mater i'r Awdurdod Gweithredol ar Iechyd a Diogelwch (HSE) yw gorfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y maes hwn. Unwaith y bydd mast yn weithredol, os oes tystiolaeth neu bryder nad yw'r gweithredwr yn ysgwyddo'i gyfrifoldebau mewn achos penodol gall yr HSE ymchwilio ac, os oes angen, orfodi gweithredu. Nid oes angen cysylltu â'r HSE i drafod

²² www.wales.gov.uk/polinfo/health/keypubs/pdf/mobilephones

²³ GPDO, Atodlen 2, Rhan 24, paragraff A.3, fel y'i cynhwyswyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir)(Diwygio)(Cymru) 2002 OS Rhif 2002/1878; Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 (GDPO) OS Rhif 1995/419, Adran 5A fel a gafodd ei gynnwys gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol)(Diwygio)(Cymru) 2002, OS Rhif 2002/1877

²⁴ Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio²⁵ (heblaw am ddatblygiad ger safleoedd lle mae perygl mawr).

87. Wrth asesu cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, bydd yr HSE'n cyfeirio at y canllawiau ar gyfyngu a baratowyd gan y NRPB. Lluniwyd y canllawiau hyn er mwyn diogelu rhag yr effeithiau iechyd cydnabyddedig. Er hynny, fel a nodwyd ym mharagraff 82, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn argymhellion y Grŵp y dylai gorsafoedd, fel rhagofal, ddilyn canllawiau'r ICNIRP ar gyfyngu cyffyrddiad ag MEM. Mae canllawiau'r ICNIRP ar gyffyrddiad y cyhoedd ag MEM yn fwy llym na chanllawiau'r NRPB. Felly wrth gydymffurfio â chanllawiau'r ICNIRP, bydd y gweithredwyr hefyd yn cydymffurfio â chanllawiau'r NRPB.

88. Gellir cael cyngor penodol ynghylch ymyriant â dyfeisiadau meddygol oddi wrth yr Asiantaeth Dyfeisiadau Meddygol.²⁶

YMYRIANT RADIO O DDATBLYGIAD ARFAETHEDIG

89. Mae dau fath sylfaenol o ymyriant. Y cyntaf yw ymyriant trydanol, a achosir gan drosglwyddydd radio neu gan signalau diangen sy'n deillio o offer trydanol arall. Mae gan yr Asiantaethau Radiogyfathrebu bwerau statudol²⁷ i ymdrin â'r math hwn o ymyriant. Dim ond os oes tystiolaeth eglur y bydd ymyriant trydanol arwyddocaol yn digwydd, ac nad oes ateb ymarferol ar gael, y gellir, fel arfer, cyfiawnhau ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu cais cynllunio.

90. Pan ragwelir y posibilrwydd o ymyriant, naill ai â thelathrebu neu â signalau darlledu, bydd angen cydgysylltu â'r Asiantaeth Radiogyfathrebu a'r darlledwyr neu'r gweithredwyr cyswllt sefydlog, i ganfod a oes modd datrys y broblem yn beirianegol. Mewn achosion o'r fath, dylid cysylltu â hwy cyn gynted ag y gellir yn ystod y broses gynllunio er mwyn cymryd eu cyngor i ystyriaeth. Pan fo problemau o'r fath yn debygol, gall yr awdurdodau cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio ar yr amod y bydd y datblygwyr, cyn dechrau datblygu, yn sicrhau yr adferir ansawdd unrhyw dderbyniad yr effeithir arno gan y datblygiad (gweler Atodiad 2 i gael mwy o fanylion ynghylch ymyriant radio).

91. Yr ail fath o ymyriant yw ymyriant ffisegol. Gall adeileddau mawr, amlwg fel blocdyrau, craeniau, warysau neu ffermydd gwynt darfu'n helaeth ar wasanaethau teledu a gwasanaethau telathrebu eraill trwy fod yn rhwystr ffisegol i'r signalau y dymunir eu derbyn, neu trwy eu hadlewyrchu. Mae signalau teledu digidol yn llawer mwy cydnerth na'r signalau analog, ac wrth i wylwyr newid yn raddol i dderbyn teledu digidol rhagwelir y bydd problemau megis ymyriant a achosir gan adlewyrchiadau oddi ar adeileddau yn diflannu. Bydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol fod yn fodlon bod y posibilrwydd o ymyriant wedi'i gymryd i ystyriaeth yn llawn wrth leoli a dylunio datblygiadau o'r fath, gan y bydd yn anos, yn fwy costus ac weithiau'n amhosibl cywiro'r broblem ar ôl datblygu. Gellir cymryd rhai ffactorau i ystyriaeth pan wneir cais cynllunio, yn arbennig uchder a lled arwynebau'r adeiledd, y deunydd a gorffeniad yr wyneb allanol, a gogwydd ochrau'r adeiledd mewn perthynas ag unrhyw drosglwyddydd teledu lleol. Os yw'n eglur, yn ôl natur y datblygiad, y bydd amharu ar dderbyniad teledu yn broblem sylweddol, hwyrach mai'r ateb fydd i'r datblygwr gynnwys system

²⁵ GDPO adran 10.

²⁶ Hannibal House, Elephant and Castle, London, SE1 6TQ Ffôn:020 7972 8080.

²⁷ Deddf Telegraffiaeth Diwifr 1949

trosglwyddo teledu (aillardarlledydd) neu system gebl yn y datblygiad. Er hynny, hwyrach na fydd ateb ymarferol bob amser yn bosibl. Mewn achos felly, sy'n ymwneud â throsglwyddyddion teledu, dylid ymgynghori'n llawn â'r awdurdodau darlledu cyn cymryd camau o'r fath.

MATERION TELATHREBU MEWN DATBLYGIADAU ERAILL

92. Wrth ystyried ceisiadau cynllunio am fathau eraill o ddatblygu, bydd yr awdurdodau cynllunio yn dymuno rhoi sylw hefyd i faterion telathrebu. Dylent annog darpar ddatblygwyr tai, swyddfeydd a stadau diwydiannol newydd i ystyried, gyda phob gweithredwr telathrebu perthnasol, sut y gellir diwallu anghenion telathrebu deiliaid y datblygiadau newydd. Dylai'r datblygwyr ddarparu cwndidau digonol ar gyfer ceblau telathrebu (ac ar gyfer gwasanaethau eraill pan fo'n briodol) ar y dechrau, o dan ddaear ac yng nghorff yr adeilad fel y gellir bodloni'r galw a ragwelir am y gwasanaethau cystadleuol sy'n debygol o gael eu darparu i'r stadau hynny. Bydd hyn yn osgoi'r gost a'r drafferth o'u darparu yn nes ymlaen, a'r angen i osod offer telathrebu newydd uwchben y ddaear. Fel rheol, dylai cyfarpar o'r fath a osodir i wasanaethu preswylwyr, megis system antena gymunedol neu brif system, fod yn destun ymgynghori a chydweithio agos rhwng y datblygwr a'r gweithredwyr telathrebu.

93. Yn gyffredinol, mae'n well lleoli ceblau newydd o dan y ddaear neu ar hyd wynebaw allanol adeiladau, ond gall y dull o ddosbarthu sydd eisoes yn arferol yn yr ardal fod yn ffactor perthnasol. Mae trwyddedau gweithredwyr systemau cod yn darparu'n benodol ar gyfer gosod cyfarpar o dan y ddaear (ac eithrio llinellau gwasanaethu), ac ar gyfer gwasanaethu datblygiadau newydd trwy gydweithredu'n agos â'r datblygwr a'r cyfleustodau eraill, fel y gellir gosod cwndidau tanddaearol ar gyfer nifer o ymgymeriadau yn ystod y gwaith datblygu neu ddefnyddio unrhyw gwndidau addas sydd eisoes yn bresennol.

94. Weithiau yn y gorffennol, bu rhai awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio'u pwerau ynghylch gosod amodau i fynnu bod pob cebl a gwifren sy'n gwasanaethu stad newydd yn cael eu gosod o dan y ddaear. Fodd bynnag, hwyrach na fydd yn bosibl i ddeiliaid tir yn y dyfodol sicrhau y gosodir gwifrau o dan y ddaear (mater i'r gweithredwr fydd hynny) a hyd yn oed pe bai'n bosibl, gallai achosi cost sylweddol i'r deiliad. Hwyrach na fydd yn bosibl gorfodi amodau²⁸ o'r fath a gallent ymddangos yn afresymol. Mae'n well felly annog gosod cwndidau digonol yn rhan o'r datblygiad ar y dechrau. Fel rheol bydd gweithredwyr telathrebu'n dymuno'u defnyddio os ydynt ar gael ac yn addas i'w dibenion.

DILEADAU

95. Dilëir Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 29/99, 'Cynllunio ar gyfer Telathrebu', a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 19, 'Telathrebu', Awst 1998.

²⁸ Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 35/95, 'Defnyddio Amodau mewn Caniatâd Cynllunio'.

ATODIAD 1 – CANLLAWIAU AR WEITHDREFNAU RHAG-GYMERADWYO AR GYFER DATBLYGIADAU TELATHREBU A GANIATEIR

Cyflwyniad

1. Mae gweithredwyr system god telathrebu ¹ yn cael caniatâd cynllunio cyffredinol yn unol â Rhan 24 Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) (fel y'i newidiwyd) ². Mae hyn yn galluogi'r gweithredwr i gyflawni'r datblygiad a ganiateir gan Ddosbarth A o Ran 24 – yn amodol ar yr eithriadau ym mharagraff A.1 a'r amodau ym mharagraff A.2 ac A.3 – heb wneud cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol.

2. O ganlyniad i baragraff A.2(4), mae rhai datblygiadau a ganiateir yn unol â Rhan 24 yn amodol ar gais am rag-gymeradwyaeth gan y gweithredwr, fel a nodir yn A.3, i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd cais o'r fath yn galluogi'r awdurdod i ystyried, o fewn 56 diwrnod, lleoliad a golwg allanol y datblygiad arfaethedig. Ceir canllawiau ynghylch gweithredu'r weithdrefn rag-gymeradwyaeth isod.

3. Nid yw cais yn unol â pharagraff A.3 *nac* yn hysbysiad *nac* yn gais am ganiatâd cynllunio. Mae cais o dan y paragraff yn gais am benderfyniad yr awdurdod ynghylch rhag-gymeradwyaeth o leoliad a golwg allanol. Lle rhoddir caniatâd yn unol â Rhan 24 ar yr amod fod cais am rag-gymeradwyaeth yn ofynnol, byddai methiant i gydymffurfio'n llawn â'r amod hwnnw'n golygu nad yw'r datblygiad wedi ei awdurdodi o dan y Gorchymyn, ac y byddai'n agored i weithred orfodi gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Y Weithdrefn Rag-gymeradwyaeth

4. Mae nifer o ffurfiau datblygu telathrebu a ganiateir yn unol â Rhan 24 o'r GPDO yn ddarostyngedig i weithdrefn rag-gymeradwyaeth 56-diwrnod yn unol â pharagraff A.2(4) Rhan 24. Mae'r weithdrefn hon yn gymwys ar gyfer adeiladu, gosod, addasu neu amnewid (oni bai fod argyfwng) y canlynol:

- (i) mast radio 15 metr neu lai o uchder sy'n cael ei osod ar y ddaear;
- (ii) mast o 15m neu lai o uchder a osodir ar adeilad neu adeiledd;
- (iii) antena (gan gynnwys unrhyw adeiledd sy'n ei chynnal) sydd 4 metr neu fwy'n uwch na'r adeilad neu'r adeiledd (heblaw mast) yn y man lle'i gosodwyd neu lle y bwriedir ei gosod;
- (iv) caban ffôn cyhoeddus;
- (v) gorchudd cyfarpar radio sydd â chyfaint mwy na 2.5 metr ciwbig
- (vi) datblygiad sy'n atodol i orchudd cyfarpar radio (e.e. ffensys, ffyrdd mynediad);
- (vii) datblygiad Dosbarth A ar dir Erthygl 1(5) neu SoDdGA nad yw wedi ei eithrio gan baragraff A.1.

¹ Gellir cael hyd i restr o weithredwyr system god yn:
www.oftel.gov.uk/ind-info/licensing/oftlic_c.htm#1.1

² OS Rhif 2002/1878

5. Ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad rhaid i'r datblygwr wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am benderfyniad ynghylch y gofyn am rag-gymeradwyaeth i leoliad a golwg allanol y datblygiad arfaethedig. Bydd gan yr awdurdod cynllunio lleol 56 diwrnod, yn dechrau gyda'r dyddiad y mae'n derbyn y cais, er mwyn gwneud a hysbysu ei benderfyniad ynghylch y gofyn am rag-gymeradwyaeth i leoliad a golwg allanol, a hysbysu'r ymgeisydd o'i benderfyniad i roi neu wrthod cymeradwyaeth o'r fath. Nid oes pŵer i estyn y cyfnod 56 diwrnod. Os na wneir penderfyniad, neu os nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r datblygwr o'i benderfyniad o fewn y 56 diwrnod, tybir bod y caniatâd wedi ei roi.

6. Mae Rhan 24 o'r GPDO yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys y canlynol gyda'r cais i awdurdod cynllunio lleol:

- a) disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig;
- b) cynllun yn dangos ei leoliad arfaethedig;
- c) tystiolaeth bod perchennog neu denant amaethyddol y tir sy'n berthnasol i'r cais wedi ei hysbysu o'r datblygiad arfaethedig;
- d) pan fo'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gosod mast o fewn 3 kilometr i berimedr maes awyr, rhaid cael tystiolaeth i ddangos bod yr Awdurdod Awyrennau Sifil, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn neu weithredwr y maes awyr (fel y bo'n briodol) wedi cael gwybod am y cynnig; a
- e) ffi priodol.

Yn ogystal, o ran datblygiad sy'n ymwneud â chodi neu osod un neu ragor o antenâu, rhaid amgáu datganiad gyda'r cais i ddweud bod yr offer a'r gosodiad yn cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Pelydredd nad yw'n loneiddio (ICNIRP).

7. Dylai'r ymgeisydd hefyd anfon yr hyn a ganlyn at yr awdurdod cynllunio lleol:

- a) tystiolaeth fod y posibilrwydd o ddefnyddio mast, adeilad neu adeiledd sy'n bresennol eisoes wedi ei ystyried cyn cyflwyno cais i godi mast newydd;
- b) gwybodaeth ynghylch pwrpas y datblygiad penodol a'r angen amdano;
- c) pan fo'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gosod, addasu neu amnewid gorsaf sefydlog ffonau symudol ar safle ysgol neu goleg, neu gerllaw, tystiolaeth o ymgynghori â chorff perthnasol yr ysgol neu goleg ynghylch y cynnig; a
- d) datganiad yn rhoi uchder yr antena arfaethedig, y nodweddion amledd a modyliad, a manylion am yr allbwn pŵer.

8. Bydd y Cod Arferion Gorau ar weithdrefnau rhag-gymeradwyaeth yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Bydd yn cynnwys cyngor ar wybodaeth ychwanegol yr anogir gweithredwyr yn gryf i'w darparu i'r awdurdod cynllunio lleol wrth wneud cais.

Ymgynghori

9. Yr un yw'r gofynion ymgynghori cyhoeddus ar yr awdurdod cynllunio lleol, ar gyfer y weithdrefn rag-gymeradwyaeth 56 diwrnod ag ar gyfer datblygiadau lle mae cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

10. Dylai'r awdurdod cynllunio lleol ddechrau'r ymgynghori a'r hysbysu fel a nodir yn y rheoliadau cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn y cais er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried y cais yng ngoleuni'r sylwadau a ddaw i law.

11. Dylai awdurdodau cynllunio lleol gymryd unrhyw sylwadau perthnasol a geir i ystyriaeth wrth benderfynu rhoi neu wrthod cymeradwyaeth ar gyfer datblygiad arfaethedig. Hwyrach y bydd awdurdod cynllunio lleol yn dymuno trafod addasiadau posibl i'r datblygiad arfaethedig gyda'r datblygwr er mwyn lliniaru pryderon penodol a godwyd gan rai yr ymgynghorwyd â hwy.

Lleoli a Golwg Allanol

12. Mae defnyddiau, lliw a dylunio yn ffactorau i'w hystyried ynghylch golwg allanol y mast a'r cyfarpar atodol. Gall defnyddiau a lliwiau priodol alluogi'r mast i ymdoddi i'w amgylchoedd. Hwyrach y bydd awdurdod yn dymuno ystyried nodweddion megis y dimensiynau; y siâp cyffredinol; ac a yw'r adeiladwaith yn solet neu'n fframwaith agored. Dylent ystyried gyda'r datblygwr hefyd a oes dyluniadau eraill ar gael a fyddai'n gweddu'n well i'r amgylchedd lleol.

13. Gall yr hyn a ganlyn fod ymhlith y ffactorau sy'n ymwneud â lleoli:

- uchder y safle mewn perthynas â'r tir o'i gwmpas;
- presenoldeb nodweddion topograffig a phlanhigion naturiol;
- yr effaith ar y nenlinell neu'r gorwel;
- y safle pan edrychir arno o unrhyw gyfeiriad, gan gynnwys manau sydd y tu allan i ardal yr awdurdod;
- y safle mewn perthynas ag ardaloedd a ddynodwyd oherwydd eu gwerth golygfaol neu gadwraethol;
- y safle mewn perthynas â mastiau, adeileddau neu adeiladau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys adeiladau o gymeriad hanesyddol neu draddodiadol;
- y safle mewn perthynas ag eiddo preswyl; ac
- unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

14. Wrth ystyried lleoliad a golwg allanol mast ynghyd â'i ddatblygiad cysylltiedig, bydd y posibilrwydd o leihau effaith y datblygiad ar ei amgylchoedd trwy dirlunio a sgrinio yn ystyriaeth bwysig.

Penderfyniad i Beidio â Gwneud Rhag-gymeradwyaeth yn Ofynnol

15. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu nad yw rhag-gymeradwyaeth yn ofynnol, gall y datblygiad fynd ymlaen (a) pan fo'r gweithredwr yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad o'r fath neu (b) ar ôl i'r cyfnod 56 diwrnod ddod i ben. Dylai'r awdurdod anfon hysbysiad o unrhyw benderfyniad cyn gynted ag y bo modd, yn hytrach na gadael i'r cyfnod 56 diwrnod ddod i ben heb hysbysu'r ymgeisydd. Rhaid i'r datblygu gael ei gyflawni yn unol â'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais am benderfyniad neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig fel arall gan yr awdurdod.

Penderfyniad i Wneud Rhag-gymeradwyaeth yn Ofynnol

16. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu bod rhag-gymeradwyaeth yn ofynnol ar gyfer lleoli a/neu olwg allanol y datblygiad, dylai hysbysu'r gweithredwr o'r penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig ac yn brydlon.

Rhoi neu Wrthod Cymeradwyaeth

17. Pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu ymgeisydd bod rhag-gymeradwyaeth yn ofynnol, dylai'r awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod yr ymgeisydd yn derbyn ei benderfyniad ysgrifenedig i roi neu wrthod cymeradwyaeth cyn diwedd y cyfnod 56 diwrnod. Bydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn awyddus i sefydlu'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer cyflwyno penderfyniad i'r ymgeisydd o fewn y cyfnod 56 diwrnod.

18. Pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r ymgeisydd bod rhag-gymeradwyaeth yn ofynnol ond yna'n methu â rhoi na gwrthod cymeradwyaeth o fewn y cyfnod 56 diwrnod, gall y datblygiad fynd ymlaen wedi i'r cyfnod hwnnw ddod i ben. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r datblygiad gael ei gyflawni'n unol â'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais neu'n unol â'r hyn a gytunwyd yn ysgrifenedig fel arall gan yr awdurdod.

19. Pan fo'r awdurdod yn hysbysu'r ymgeisydd bod cymeradwyaeth wedi ei rhoi i'r lleoli ac i olwg allanol y datblygiad arfaethedig o fewn y cyfnod 56 diwrnod, gall y datblygu gychwyn unwaith y ceir y penderfyniad hwnnw. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r datblygiad gael ei gyflawni'n unol â'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais neu'n unol â'r hyn a gytunwyd yn ysgrifenedig fel arall gan yr awdurdod.

20. Gall yr awdurdod cynllunio lleol wrthod cymeradwyaeth i'r lleoli a/neu'r olwg allanol os yw'n ystyried bod cyfiawnhad dros hynny. Rhaid i'r awdurdod wneud hynny drwy hysbysu'r ymgeisydd, o fewn y cyfnod 56 diwrnod, o'i benderfyniad i wrthod cymeradwyaeth. Dylid rhoi rhesymau dros wrthod cymeradwyaeth. Os yw awdurdod yn ystyried y gall fod cyfiawnhad dros wrthod cymeradwyaeth, dylai yn gyntaf edrych gyda'r gweithredwr ar y posibilrwydd o addasu lleoliad a/neu olwg allanol y datblygiad arfaethedig. Wrth arfer y pŵer hwn, dylai'r awdurdod cynllunio lleol gymryd i ystyriaeth y rhwymedigaethau ar weithredwyr system god i ddarparu gwasanaeth, a'r cyfyngiadau technegol ar ddatblygu rhwydwaith.

Gweithredu yn Dilyn Gwrthod Cymeradwyaeth

21. Yn unol ag adran 78(1)(c) Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990, mae gan ymgeiswyr hawl i apelio yn erbyn gwrthodiad cymeradwyaeth a wnaed o dan y weithdrefn rhag-gymeradwyaeth. Rhaid gwneud apeliadau o'r fath i'r Cynulliad o fewn chwe mis i ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol.

22. Os gwrthodir cymeradwyaeth, neu os cadarnheir gwrthodiad ar apêl, gall ymgeisydd wneud cais o'r newydd am rag-gymeradwyaeth i'r awdurdod cynllunio lleol. Gall unrhyw gais newydd gynnwys manylion lleoliad gwahanol a/neu olwg allanol wahanol. Rhaid i bob cais unigol gael ei ystyried eto gan yr awdurdod cynllunio lleol ar sail ei deilyngdod unigol.

23. Dylid nodi nad yw gwrthod rhag-gymeradwyaeth yn dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safle unigol. Nid yw'n fwy na gwrthodiad o'r cais penodol o dan ystyriaeth. Trwy gyflwyno cyfarwyddyd yn unol ag Erthygl 4 o'r GPDO yn unig y gellir dileu'r hawliau datblygu a ganiateir. Bydd angen cymeradwyaeth y Cynulliad o flaen llaw ar gyfer cyflwyno cyfarwyddyd o'r fath o ran cyfarpar gweithredwyr system god. Nodir canllawiau cyffredinol ar gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn Atodiad D i Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 29/95.

Rhoi gwybod am ddatblygiad brys

24. Nid yw'r weithdrefn rag-gymeradwyaeth yn berthnasol yng nghyd-destun datblygiad brys a gyflawnir yn unol â Rhan 24. Mae unrhyw ddatblygiad a gyflawnir mewn argyfwng yn amodol ar y gofyniad ym mharagraff A.3 (10), bod y gweithredwr yn hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r argyfwng ddechrau. Dylid nodi bod y gofyniad i hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn sefyll ar wahân i'r gofyniad yn Neddff Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i hysbysu Cyngor Cefn Gwlad Cymru cyn gynted ag y bo modd wedi i ddatblygiad brys ddigwydd ar SoDdGA.

25. Er nad oes diffiniad statudol o ddatblygiad brys yn unol â Rhan 24, hwyrach y bydd y diffiniad o 'waith brys' a roddir ym mharagraff 1(1) Atodlen 2, Deddf Telathrebu 1984 o gymorth, fel canllaw cyffredinol, yng nghyd-destun datblygiadau gan gweithredwyr system god. Atgynhyrchir y diffiniad hwnnw yn Nodyn A i'r Atodiad hwn. Penderfynir a yw datblygiad penodol yn ddatblygiad brys yn ôl ffeithiau'r achos unigol hwnnw.

Hysbysu yn unol â Thelerau Trwydded

26. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am rag-gymeradwyaeth yn unol â pharagraff A.3, a'r gofyniad i hysbysu datblygiad brys yn unol â pharagraff A.3(10) Rhan 24 yn sefyll ar wahân i'r weithdrefn hysbysu sy'n ofynnol yn ôl telerau'r trwyddedau a roddir i weithredwyr yn unol â Deddf Telathrebu 1984.

NODYN A – DYFYNIAD O ATODLEN 2 DEDDF TELATHREBU 1984

ystyr “gwaith brys”, mewn perthynas â'r gweithredwr neu ymgwymerwr perthnasol i ddibenion paragraff 24 uchod, yw gweithiau y mae eu cyflawni ar yr adeg y bwriedir eu cyflawni yn angenrheidiol er mwyn terfynu amgylchiadau sydd wedi codi ar y pryd, neu atal amgylchiadau sydd ar fin digwydd, pan fo'r amgylchiadau yn debygol o achosi -

- a) perygl i bobl neu i eiddo
- b) ymyrraeth ag unrhyw wasanaeth a ddarperir gan system y gweithredwr, neu, fel y bo'n briodol, ymyrraeth ag arfer unrhyw swyddogaethau a osodwyd neu a orfodwyd ar yr ymgwymerwr gan unrhyw ddeddfwriaeth neu yn unol â hi; neu
- c) golled sylweddol i'r gweithredwr neu, fel y bo'n briodol, yr ymgwymerwr, a pha bynnag weithiau y mae'n rhesymol dan bob amgylchiadau eu cyflawni ar y cyd â'r gweithiau hynny.

ATODIAD 2 – RHEOLI YMYRIANT RADIO

1. Yn unol â thelerau deddfwriaeth telegraffiaeth ddiwifr, mae'n ofynnol i bob defnyddiwr cyfarpar radio osgoi creu ymyriant radio amhriodol â defnyddwyr radio eraill, gan gynnwys setiau teledu domestig, a rhaid i'w cyfarpar fod wedi ei gynllunio i leihau ymyriant i'r eithaf. Mae rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddiwifr 1949 yn gosod terfynau ar yr allyriannau amledd radio diangen sy'n tarddu o offer arall, heblaw cyfarpar radio, megis offer tŷ a rhai peiriannau swyddfa (ond nid cyfrifiaduron). Mae Rheoliadau Ewropeaidd hefyd sy'n ymdrin â chytunedd dyfeisiau trydanol a'u himiwnedd rhag ymyriant electromagnetig. Gellir dod o hyd i fanylion diweddaraf y rheoliadau cyfredol ar wefan yr Asiantaeth Radiogyfathrebu, www.radio.gov.uk. Ran amlaf, felly, nid yw cwestiynau ynghylch y posibilrwydd o ymyriant yn berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio am fastiau neu antenâu er mwyn gweithredu trosglwyddydd. Fel arfer bydd rheolau eraill ar gael i ymdrin â phroblemau ymyriant radio.

2. Er hynny, gall ymyriant sylweddol ddigwydd er gwaethaf y rheolaethau hyn. Er enghraifft, gall yr ymyriant ddeillio o fath o offer sydd y tu allan i gwmpas y rheoliadau; neu gall ffactorau sy'n benodol i'r safle achosi'r ymyriant, er bod y gweithredwyr wedi cydymffurfio â'r deddfwriaeth. Yn ychwanegol, gall yr adeilad ei hun achosi ymyriant, hwyrach am ei fod yn atal y signalau yn ffisegol neu'n eu hadlewyrchu, gan achosi "rhithluniau". Nid oes modd ymdrin â'r math hwn o ymyriant trwy deddfwriaeth radio. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol ffurfio barn arno ym mhob achos unigol yw maint a difrifoldeb y broblem, ac a ellir cyfiawnhau ei drin fel ystyriaeth gynllunio berthnasol, a pha bwys y dylid ei roi arno os yw'n berthnasol.

3. Os nad yw'r datblygiad wedi digwydd eto ond fod ymyriant posibl yn achosi pryder gwirioneddol yn lleol, hwyrach y bydd y naill neu'r llall o'r partion yn dymuno cael cymorth arbenigwyr i asesu tebygolrwydd a maint unrhyw ymyriant, ond ni ddylai'r awdurdodau fynd ati i chwilota'n ddiangen am broblemau o'r fath i'w harchwilio'n feirniadol.

4. Mae'n annhebygol y gellid cyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio ar sail ymyriant radio, o drosglwyddydd neu offer heblaw cyfarpar radio, ar ei ben ei hunan, ac eithrio mewn achosion eithafol. Weithiau gall fod yn briodol rhoi caniatâd cynllunio dros dro i weithredu'r cyfarpar am gyfnod prawf; ond ni ddylid gwneud hynny onid oes tystiolaeth o ymyriant sylweddol, a dim ond fel dewis arall yn lle gwrthod. Ar ddiwedd y prawf gellir penderfynu'n derfynol. Er hynny, yn achos gwasanaethau darlledu a thelathrebu cenedlaethol, ni fyddai'r gweithredwyr fel rheol yn ystyried caniatâd cynllunio dros dro yn dderbyniol. Pan fo ceisiadau sydd wedi'u gwrthod ar sail ymyriant yn unig neu'n bennaf yn dod i apêl, bydd y Cynulliad yn disgwyl i'r awdurdodau cynllunio ddangos manylion llawn y dystiolaeth o ymyriant, neu ymyriant tebygol, a thystiolaeth nad oes unrhyw ffordd resymol a boddhaol ar gael i gywiro'r ymyriant.

5. Fel rheol ni fydd amod cynllunio cyffredinol, sy'n mynnu na fydd unrhyw ymyriant yn digwydd, yn briodol nac yn rhesymol. Gellir rheoli rhai mathau o ymyriant o dan deddfwriaeth radio ac fel rheol bydd yn well dibynnu ar y deddfwriaeth honno mewn achos o'r fath, yn hytrach na throi at amodau cynllunio. Ymhellach, mae angen cymryd i ystyriaeth gallu'r cyfarpar yr effeithir arnynt i wrthsefyll signalau diangen. Os nad yw'r gallu hwnnwn'n ddigonol, gall yr ymyriant ddigwydd heb unrhyw fai ar y ffynhonnell.

6. Os yw'r gosodiad sy'n creu'r ymyriant eisoes ar waith, (e.e. mewn achosion lle gwneir cais i gadw mast sy'n bresennol eisoes gyda chaniatâd cynllunio â therfyn amser, neu os yw'r datblygiad gwreiddiol wedi digwydd heb ganiatâd a bod yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried cymryd camau gorfodi), cymharol hawdd fydd darganfod a all ac a ddylai yr ymyriant gael ei gywiro, a yw'n fater i'r rheolaethau trwyddedu radio ac, os na, a oes angen datrys y mater trwy'r rheolaethau cynllunio. Gall darllediadau prawf ddatgelu maint tebygol unrhyw broblem, er y dylid cydnabod na fydd darllediadau prawf bob amser yn cyfateb yn union i amodau'r gosodiad terfynol nac yn parhau yn ddigon hir i bob amgylchiad anffafriol achlysurol godi.

7. Mewn achosion lle mae ymyriant o drosglwyddydd, neu o offer heblaw cyfarpar radio, wedi digwydd, dylai'r achwynwyr drafod y mater yn gyntaf gyda'u peiriannydd gwasanaeth, contractwr erial, neu gyflenwr neu werthwr y cyfarpar. Mae profiad yn dangos, yn y rhan fwyaf o achosion, naill ai nad yw imiwnedd yr offer i ymyriant yn ddigonol, neu ei fod wedi ei osod yn anghywir. Gellir lliniaru ymyriant o'r fath yn aml trwy weithredu mesurau technegol priodol i wella imiwnedd yr offer yr effeithir arno gan y signalau diangen.

8. Gall gwylwyr a gwrandawyr domestig ofyn am ymchwiliad ymyriant gan yr Asiantaeth Radiogyfathrebu (AR) sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth ar ymyriant radio. Ni fydd yr AR yn codi tâl am ymchwiliad oni chanfyddir mai diffygion yn offer yr achwynwyr eu hunain sy'n achosi'r broblem. Mae'r AR wedi cyhoeddi taflen ar gyfer deiliaid tai gyda'r teitl "Ymyriant Radio a Theledu" (RA179) sy'n rhoi manylion eu gwasanaeth ymchwilio. Gellir cael copi o'r daflen trwy ffonio'r AR ar 020 7211 0211 a gofyn am y llyfrgell, neu trwy ymweld â wefan yr AR. Gall busnesau sy'n dioddef ymyriant ymgynghori â'u swyddfa AR leol (mae'r manylion ar y daflen AR RA206).

9. Mae'n bosibl y gall y cyrff a ganlyn gynnig mwy o gyngor:

Cymdeithas y Peirianwyr Ymgynghorol
Alliance House, 12 Caxton Street, Llundain SW1H 0QL
Ffôn: 020 7222 6557 Gwefan: www.acenet.co.uk

Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC)
BBC Reception Advice, Television Centre,
Wood Lane, Llundain W12 7RJ
Ffôn: 08700 100 123 Gwefan: www.bbc.co.uk/reception

Y Comisiwn Teledu Annibynnol (ITC)
ITC Engineering Information
Staple House
Staple Gardens
Caerwynt SO23 8SR
Ffôn: 01962 848647 123 Gwefan: www.itc.org.uk

Yr Awdurdod Radio
Holbrook House, 14 Great Queen Street
Holborn, Llundain WC2B 5DG
Ffôn: 020 7430 2724 E-bost: info@radioauthority.org.uk
Gwefan: www.radioauthority.org.uk

Sefydliad y Peirianwyr Trydanol
Savoy Place, Llundain, WC2R 0BL
Ffôn: 020 7240 1871 E-bost: postmaster@iee.org.uk Gwefan: www.iee.org.uk

Radiocommunications Agency
Wyndham House, 189 Marsh Wall
Llundain E14 9SX
Ffôn: 020 7211 0502 or 0505 E-bost: library:ra.gsi.gov.uk Gwefan: www.radio.gov.uk

Radio Society of Great Britain
Lambda House, Cranborne Road, Potters Bar
Hertfordshire EN6 3JE
Ffôn: 0870 9047373 1871 E-bost: postmaster@rsgb.org.uk Gwefan: www.rsgb.org.uk